# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 29 Mehefin a 6 Gorffennaf 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

25 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

26 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

30 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

40 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

43 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i’r Prif Weinidog

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi’u cynnal ar gyflwyno un papur pleidleisio ar gyfer etholiadau Cynulliad Cymru? (WAQ47348)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) sy’n llywodraethu sut y caiff etholiadau’r Cynulliad eu rhedeg. Byddai angen cynnwys unrhyw newidiadau yn nyluniad y papur pleidleisio yn y Gorchymyn ac mae’r cyfrifoldeb am ddiwygio’r ddeddfwriaeth yn aros gyda Swyddfa Cymru.

Er nad wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ar y mater hwn, yr wyf yn ymwybodol fod dyluniad papur pleidleisio etholiadau’r Cynulliad wedi cael ei ystyried gan y grŵp cynllunio etholiadau a chynigiwyd y dylid parhau i ddefnyddio dau bapur pleidleisio.

Mae’r Alban wedi cyhoeddi ei bwriad i ddefnyddio un papur pleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol a lleol yr Alban yn 2007. Pan fydd y Comisiwn Etholiadol yn cyflwyno adroddiad ar yr etholiadau hynny, cawn weld a fydd hynny wedi profi’n llwyddiannus.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Lisa Francis:** Pryd mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhagweld y bydd ganddynt argymhellion ynghylch sut y gwerir y dyraniad cyllidebol o £500,000 o gyllideb y Celfyddydau ar theatr Saesneg ei chyfrwng? (WAQ47436)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Yr wyf wedi gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru wneud ei argymhellion i mi ar sut y dylid defnyddio’r cyllid hwn, a disgwyliaf wneud cyhoeddiad yn yr hydref.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid a fu ar gael ar gyfer y cynllun cyngor a grantiau i fanwerthwyr gwledig ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ47299) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad***

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y cynllun cyngor a grantiau i fanwerthwyr gwledig? (WAQ47297) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad***

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun cyngor a grantiau i fanwerthwyr gwledig a redid gan gyn Awdurdod Datblygu Cymru? (WAQ47298) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Dechreuodd y cynllun grantiau i fanwerthwyr gwledig ym mis Hydref 2003 ac mae’n cynnig cyngor busnes wedi’i deilwra’n arbennig a grantiau bach (hyd at uchafswm o £10,000) i fanwerthwyr mewn ardaloedd gwledig lle mae’r rhaglen weithredu dros gymunedau gwledig yn gweithredu. Mae’n anelu at ailgyflwyno gwasanaethau manwerthu hanfodol i ardaloedd sydd wedi colli, neu sydd mewn perygl o golli, gwasanaeth. Ni fydd y grantiau fel arfer yn fwy na 50 y cant o gyfanswm y gost ac maent yn ddibynnol ar yr angen i gynhyrchu cynllun busnes llawn a thystiolaeth glir o gefnogaeth gymunedol.

Mae’r gyllideb ers dechrau’r cynllun fel a ganlyn:

£oedd

| 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 |
|---|---|---|---|
| 750,000 | 150,000 | 80,000 | 80,000 |

Ni fu'r symiau y gofynnwyd amdanynt erioed yn uwch na £69,000 ac mae'r gyllideb wedi'i haddasu i lefelau mwy realistig yn unol â hynny.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel yr adnoddau nad ydynt wedi'u hymrwymo sydd ar gael ar gyfer Grant Trafnidiaeth ym mhob un o'r tair blynedd ariannol nesaf? (WAQ47391)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae rhaglen y grant trafnidiaeth wedi ei rwymo'n llwyr am y dyfodol rhagweladwy. Yr ydym ar hyn o bryd yn bwrw ymlaen â'r rhaglen bresennol a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan Sue Essex AC ym mis Ionawr 2001.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o grant trafnidiaeth a dalwyd i gynghorau yn y De Orllewin yn y flwyddyn gyfredol? (WAQ47392)

**Andrew Davies:** Mae dyraniadau grant trafnidiaeth i gynghorau yn y De Orllewin ar gyfer 2006-07 fel a ganlyn: £6.014 miliwn i Gyngor Dinas a Sir Abertawe, £11.139 miliwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac £1.857 miliwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Jonathan Morgan:** Pa bolisïau sydd gan y Gweinidog i helpu i gynyddu nifer y swyddi sector preifat yng Nghymru? (WAQ47383)

**Andrew Davies:** O fewn amcanion fy Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, mae cefnogaeth i greu swyddi yn un o'n prif amcanion. Drwy gydol ein fframwaith strategol, mae cefnogaeth i swyddi cynaliadwy yn economi Cymru yn ymrwymiad amlwg. Yn 'Cymru: Economi yn Ffynnu', yr ydym yn benodol yn tynnu sylw at yr angen i barhau â'n gwaith ar gyflogaeth ac anweithgarwch economaidd. Yn 'WAVE' (Cymru: Economi yn Ffynnu) nodir hefyd bod diweithdra yng Nghymru wedi cwympo'n is na chyfartaledd y DU, a'i fod ar ei isaf er canol y 1970au. Cymru yw'r unig ran o'r DU lle y mae'r twf mewn cyflogaeth yn y sector preifat er 1999 wedi bod yn uwch nag yn y sector cyhoeddus.

Mae'r nod o greu swyddi newydd a gwell yn torri ar draws ein holl raglenni a pholisïau, yn cynnwys y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau sydd newydd ei sefydlu, ein gwasanaethau rheoli cyfrifon a Chymorth Cyffredinol i Fusnesau, ein cynlluniau gweithredu ar arloesi ac entrepreneuriaeth yn ogystal â'r gefnogaeth ariannol a gynigir drwy grant buddsoddi'r Cynulliad, cymorth rhanbarthol dewisol Cymru Wales a Chyllid Cymru. Mae'r holl feysydd gwaith hyn wedi'u cynllunio i fod o gymorth i'r sector preifat.

Yn dilyn y cyfuno, yr wyf wedi sefydlu 'swyddi a grëwyd ac a gynhaliwyd' fel dangosydd perfformiad allweddol parhaus o fewn yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau er mwyn cadw'r pwyslais ar gyflogaeth a gweithgarwch economaidd.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd i fynd i'r afael a'r anweithgarwch economaidd yng Nghymru? (WAQ47384)

**Andrew Davies:** Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu, yr oedd 438,000 o bobl anweithgar yn economaidd o oedran gweithio yng Nghymru ym misoedd Chwefror i Ebrill 2006, i lawr 33,000 neu 7.1 y cant er 2001. Yn ystod yr un cyfnod gwelodd y DU gynnydd o 101,000 neu 1.3 y cant. Yr oedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ymhlith pobl o oedran gweithio yng Nghymru yn 24.5 y cant ym misoedd Chwefror i Ebrill 2006, i lawr 2.7 o bwyntiau canran er 2001. Yr oedd hyn yn ostyngiad mwy nag mewn

unrhyw wlad na rhanbarth Seisnig arall yn y DU, ac mae'n cymharu â gostyngiad cyffredinol o 0.4 pwynt canran ar gyfer y DU.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo datblygu economaidd yn y De Ddwyrain? (WAQ47385)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru: Economi yn Ffynnu' yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad economaidd. Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys cynyddu cyflogaeth a chodi safon swyddi. I gyflawni hyn yn ne-ddwyrain Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda nifer o bartneriaethau a sefydliadau lleol i gyflawni amcanion a dyheadau cymunedau lleol. Enghreifftiau o hynny yw fframwaith strategol Pen y Cymoedd, sy'n gorwedd yn bendant o fewn cyd-destun cynllun gofodol Cymru o ran cryfhau'r Cymoedd, ac adfywio Casnewydd dan arweiniad Newport Unlimited, a fydd yn gwella gallu cystadleuol y ddinas yn ddramatig.

**Karen Sinclair:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gydag awdurdodau lleol ynglŷn â rheoli traffig yng Nghymru? (WAQ47386)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi bod yn trafod gydag awdurdodau lleol unigol yn benodol mewn perthynas â rheoli traffig, ond yr wyf wedi trafod y mater gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gallaf, er hynny, gadarnhau bod canllawiau drafft ar ddyletswyddau rheoli rhwydweithiau wedi'u hanfon at awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o'r broses ymgynghori arferol. Cafodd cynrychiolwyr o awdurdodau lleol ran mewn ystyried y sylwadau a wnaethpwyd ac unrhyw newidiadau dilynol i'r drafft.

Cynhaliodd fy swyddogion o Drafnidiaeth Cymru gyfarfod gyda chynrychiolwyr CLlLC ar 18 Mai 2006 i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â'r ddogfen ganllawiau.

Caiff y ddogfen ganllawiau ei pharatoi yn unol â Rhan 2, adran 18 Deddf Rheoli Traffig 2004. Rhagwelir y caiff Rhan 2 y Ddeddf ei rhoi mewn grym yn hwyrach eleni, (yn ddibynnol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru) pryd y bwriadwn gyhoeddi'r canllawiau ar ddyletswyddau rheoli rhwydweithiau.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatgelu manylion cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Trenau Arriva Cymru? (WAQ47387)

**Andrew Davies:** Er 1 Ebrill 2006, Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol am fasnachfraint Trenau Arriva Cymru. Mae hynny'n golygu taliad cymhorthdal blynyddol o £141 miliwn, yn cynnwys y taliadau perfformiadau a ragamcanir.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr angen am ganolfan gynadledda ryngwladol ar gyfer ein prifddinas? (WAQ47388)

**Andrew Davies:** Yn 2004 cyfrannodd Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd at astudiaeth ac adroddiad gan ymgynghorwyr yn archwilio'r anghenion cynadledda yng Nghaerdydd. Nododd yr adroddiad y byddai Caerdydd yn elwa o ddatblygu canolfan gonfensiynau ar gyfer hyd at 1,500 o gynrychiolwyr ynghyd â chyfleusterau eraill fel gofod arddangos. Mae fy adran drwy Croeso Cymru yn parhau i gefnogi canfyddiadau'r astudiaeth a byddem yn hapus i gydweithio â Chyngor Dinas Caerdydd a datblygwyr i helpu i symud ymlaen â'r datblygiad hwn.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba feini prawf a ystyrir wrth ddyrannu Grantiau Trafnidiaeth? (WAQ47293)

**Andrew Davies:** Mae'r meini prawf ar gyfer ceisiadau grant trafnidiaeth wedi eu rhestru yn y nodiadau canllaw blynyddol i awdurdodau lleol, yn dibynnu i ba gategori y gwahoddir cynigion mewn unrhyw flwyddyn benodol. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwahodd cynigion ar gyfer unrhyw gynlluniau newydd, ac eithrio Llwybrau Diogel i'r Ysgol.

**Owen John Thomas:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Lywodraeth y DU ynglŷn â gwella'r Cynllun Cymorth Ariannol i gwmpasu pob grŵp oedran yr effeithir arno? (WAQ47303)

**Andrew Davies:** Yr oedd cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, John Hutton, ar 25 Mai ar ddyfodol y system bensiynau yn cynnwys estyniad i'r cynllun cymorth ariannol.

Yr wyf yn croesawu'r cyhoeddiad hwn fel cam pwysig ymlaen a chredaf ei fod yn tystio i lwyddiant y dull ar y cyd parhaus a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Undeb Community i godi'r mater hwn yn barhaus ar y lefel uchaf yn San Steffan ar ran holl aelodau cynllun pensiwn ASW.

Yr ydym yn parhau i gydlynu'n agos ag Undeb Community i benderfynu sut y bydd y cyllid ychwanegol o £1.7 biliwn, a'r estyniad i'r rheiny sy'n gallu elwa o'r cynllun cymorth ariannol yn effeithio ar unigolion yn y cynlluniau hynny.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda chynrychiolwyr Llywodraeth leol y DU ynglŷn â chynlluniau i leihau tagfeydd traffig yn ein dinasoedd a'n trefi? (WAQ47338)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth drafnidiaeth i Gymru, ac un o'i themâu allweddol yw sicrhau system drafnidiaeth fwy effeithiol ac effeithlon. Mae osgoi neu fynd i'r afael â'r tagfeydd traffig sydd weithiau'n cyd-fynd â llwyddiant economaidd yn rhan bwysig o hyn. Wrth ddatblygu'r strategaeth drafnidiaeth hon, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cwrdd a gweithio mewn partneriaeth â swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru a swyddogion y consortia trafnidiaeth ranbarthol i drafod mentrau sy'n anelu at leihau tagfeydd traffig. Er 2002, mae swyddogion hefyd wedi bod yn gweithio'n glos gyda Chyngor Dinas Caerdydd wrth iddo ddatblygu partneriaeth drafnidiaeth Caerdydd, sef partneriaeth gyhoeddus-breifat sy'n cael ei sefydlu i gyflwyno rheolaeth ar alw.

Mae Deddf Rheoli Traffig, 2004, yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau traffig lleol i reoli'r rhwydwaith ffyrdd yn well ac felly leihau'r hyn sy'n achosi tagfeydd a dryswch. Mae drafft o'r strategaeth drafnidiaeth yn cydnabod y manteision y gall rhagor o reolaeth dros draffig ei sicrhau dan y Ddeddf, yn enwedig ar ba mor ddibynadwy yw amser siwrneiau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i raglen i roi'r Ddeddf ar waith o 2006 ymlaen. Caiff drafft o strategaeth drafnidiaeth Cymru ei rhyddhau cyn hir ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.

**Mick Bates:** Pa gymorth y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ei roi er mwyn lleihau costau ynni diwydiannau ynni-sensitif? (WAQ47340)

**Andrew Davies:** Rhan allweddol o'n strategaeth ynni yw sicrhau cyflenwadau ynni amrywiol a fforddiadwy. Rhyddhawyd ein map llwybr ynni ar gyfer ymgynghori a chaiff sylwadau diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni eu bwydo i mewn i'r fersiwn derfynol, yn dilyn canlyniad arolwg ynni'r DU. Pwysleisiai ein hymateb i arolwg ynni yr Adran Diwydiant a Masnach bryderon ein diwydiannau ynglŷn â'r ffaith fod costau cynyddol ynni'n effeithio ar y gallu i gystadlu. Mae hyn yn cael effaith anghyfartal o uchel ar Gymru gan fod gennym ganran uwch o ddiwydiannau trwm na chyfartaledd y DU. Cafodd y pryderon hyn eu lleisio gan ddiwydiant yn yr uwch-gynhadledd ynni a gydgadeiriais gyda Phrif Weinidog

Cymru fis Rhagfyr diwethaf. Mae'n bosibl y caiff y sefyllfa yn ne Cymru, lle y mae prisiau trydan gyda'r uchaf ym Mhrydain Fawr, ei lleddfu wrth i ragor o gynnyrch ddod ar gael o ganlyniad i adeiladu gorsaf drydan arfaethedig newydd.

Cymeradwywn ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau marchnadoedd ynni rhyddfrydoledig ledled yr UE ac anogwn y Llywodraeth i edrych ar atebion arloesol i broblemau defnyddwyr ynni ar raddfa fawr yn ystod yr hyn a allai fod yn drawsnewid hir at farchnadoedd rhyddfrydoledig ledled yr UE.

Er mwyn helpu diwydiant i leihau eu costau ynni mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n noddi Ymddiriedolaeth Garbon Cymru, sy'n cynnig ystod o wasanaethau i fusnesau, yn cynnwys benthyciadau di-log ar gyfer offer ynni-effeithiol, llinell gymorth sy'n rhoi cyngor am ddim, a gwefan ac archwiliadau ynni. Yn 2004-05 bu iddi helpu busnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddod o hyd i arbedion o tua £11.5 miliwn. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, lansiwyd ymgyrch proffil uchel gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, sy'n codi ymwybyddiaeth drwy nifer o wahanol gyfryngau, gan wneud y cysylltiad rhwng lleihau allyriannau carbon a lleihau costau ynni yn amlwg.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl grantiau, rhai'r Llywodraeth a rhai Awdurdod Datblygu Cymru, sydd wedi'u rhoi i Ford Pen-y-bont ar Ogwr a'r telerau a'r amodau a oedd yn gysylltiedig â hwy? (WAQ47341)

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl grantiau, rhai'r Llywodraeth a rhai Awdurdod Datblygu Cymru, sydd wedi'u rhoi i Visteon a'r telerau a'r amodau a oedd yn gysylltiedig â hwy? (WAQ47342)

**Andrew Davies:**
**FORD**
Ers cychwyn y Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999, gwnaethpwyd un cynnig o gymorth rhanbarthol dewisol, gwerth £19.74 miliwn, i Ford ym mis Mai 2005. Gwnaethpwyd y cynnig ar y sail y byddai gwariant cyfalaf o tua £188 miliwn ar y prosiect, ac y byddai'n creu 788 o swyddi newydd a diogelu 416 o swyddi eraill. Yr oedd y prosiect tuag at injan y Volvo i6. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo o hyd.

**VISTEON**
Cynigiwyd grant rhanbarthol dewisol o £2.5 miliwn i'r cwmni ym mis Chwefror 2005 tuag at brosiect yn ymwneud â chynhyrchu echelau IRS yng ngwaith Abertawe. Gwnaethpwyd y cynnig ar y sail y byddai gwariant cyfalaf o £14.9 miliwn ar y prosiect ac y byddai'n creu 264 o swyddi newydd.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog nodi canran y boblogaeth weithio y mae eu swyddi'n cynnwys gwaith shifft? (WAQ47345)

**Andrew Davies:** Mae'r data perthnasol diweddaraf gan yr arolwg o'r llafurlu yn ymdrin â gwanwyn 2005. Bryd hwnnw, amcangyfrifir bod 19.5 y cant o'r boblogaeth weithio yng Nghymru yn gwneud gwaith shifft o leiaf beth o'r amser yn eu prif swydd.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Trafnidiaeth yng Nghymru? (WAQ47355)

**Andrew Davies:** Mae fy mholisïau trafnidiaeth wedi eu cynllunio i ddatblygu system drafnidiaeth effeithiol ac effeithlon sy'n cynnal datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru ac ar yr un pryd yn cadw'r gofynion a osodir ar yr amgylchedd mor ised â phosibl.

Cyhoeddais bolisïau trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fy adolygiad trafnidiaeth, a oedd yn cynnwys atodiad 2004 i'r flaenraglen cefnffyrdd. Mae'r rhaglen £8 biliwn, 15 mlynedd, yn anelu at gyflwyno system drafnidiaeth integredig o'r radd flaenaf ledled Cymru.

Mae Deddf newydd Trafnidiaeth (Cymru) 2006 yn gosod dyletswydd statudol bendant ar y Cynulliad Cenedlaethol i gynhyrchu strategaeth drafnidiaeth i Gymru, sy’n edrych ar anghenion trafnidiaeth y wlad yn ei chyfanrwydd. Bydd hyn yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth integredig ac effeithiol, yn ogystal â chanolbwyntio ar sut y caiff y weledigaeth honno ei chyflwyno. Byddwn yn ymgynghori ar y strategaeth ddrafft ymhen amser priodol.

**John Marek:** A wnaiff y Gweinidog brysuro i geisio setlo’r hawliad iawndal a wnaed gan Ron Skinner a’i Feibion o Tafarnaubach, Tredegar, a wnaed o ganlyniad i’r anhwylustod a achoswyd gan waith ffordd ar yr A465, ffordd Blaenau’r Cymoedd? (WAQ47356)

**Andrew Davies:** Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng yr asesiad presennol o iawndal a wnaethpwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy’n gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, a’r swm a hawlir gan yr asiantau sy’n gweithredu ar ran y Mri. Ron Skinner a’i Feibion. Oherwydd cymhlethdodau’r hawliad, yn enwedig mewn perthynas â cholli elw, argymhellodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio benodi cyfrifydd fforensig i ddadansoddi’r cyfrifon busnes.

Mae cyfrifiad yr hawlwyr o golledion honedig yn gymhleth a bu’n rhaid gofyn llawer o gwestiynau a gwneud cais am dystiolaeth i gefnogi’r achos. Mae llawer o wybodaeth ychwanegol wedi’i darparu erbyn hyn ac mae cyfarfod pellach rhwng yr hawlwyr a phrisiwr Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r cyfrifwyr wedi’i drefnu ar gyfer 5 Gorffennaf.

Gwnaethpwyd dau daliad ymlaen llaw yn 2005 yn erbyn prisiad a osodwyd ar yr hawliad gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Gobeithir y gellir dod i gytundeb, ond o ystyried y gwahaniaethau sylweddol ynglŷn â gwerth yr hawliad efallai na fydd hynny’n bosibl. Mewn achosion lle y ceir gwahaniaethau na ellir eu cysoni rhwng priswyr ynglŷn â’r lefelau neu’r egwyddorion sy’n ymwneud ag asesu iawndal, mae gan yr hawlwyr y dewis o gyfeirio’r mater at y Tribiwnlys Tir ar gyfer cyflafareddu.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru’r holl ddigwyddiadau lletygarwch a drefnwyd gan ei adran ers Ebrill 2006, yn ogystal â rhestr o’r gwesteion a’r costau cysylltiedig? (WAQ47362)

**Andrew Davies:** Mae llawer o’r lletygarwch a ddarparwyd yn rhan o becyn nawdd ehangach a bydd tynnu costau lletygarwch penodol ar gyfer y cyfnod a nodwyd yn golygu costau anghymesur neu’n ymwneud â chysylltiadau unigol â darpar fuddsoddwyr lle na byddai’n briodol rhoi’r wybodaeth ar gael.

**Michael German:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog cwmnïau i leoli yng Nghymru? (WAQ47382)

**Andrew Davies:** Yn Busnes Rhyngwladol Cymru, yr ydym wedi creu sefydliad sy’n addas i’r pwrpas o fanteisio’n llawn ar botensial Cymru o ran masnach a buddsoddi o’r tu allan. Mae’r tîm rheoli wedi’i gryfhau ac yr ydym yn parhau i adeiladu ar hynny. Mae ein ffocws sectoraidd, sy’n cwmpasu’r sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau fel ei gilydd, yn sicrhau bod ein cynigion yn cyd-fynd ag anghenion buddsoddwyr o’r marchnadoedd allweddol. Mae’r ffocws hwn, ar y cyd â, ymhlith pethau eraill, dull o ymchwilio a defnyddio tystiolaeth fel sail i ddynodi buddsoddwyr a marchnadoedd addas, defnyddio digwyddiadau mawr fel Cwpan Ryder i godi proffil Cymru, y gwasanaeth di-dor sy’n canolbwyntio ar gwsmeriaid a ddarperir gan yr holl dîm sy’n ymwneud ag annog buddsoddi o’r tu allan, ac ymwneud gweinidogion yn ddewisol ar yr adeg iawn, yn fesurau a fydd yn cynhyrchu rhagor o lwyddiant i Gymru.

Caiff portffolio iach o gyfleoedd buddsoddi o’r tu allan eu datblygu – gan gwmnïau sy’n newydd i Gymru a chan y rheiny sydd yma eisoes fel ei gilydd – ac mae’r cyhoeddiad diweddar gan Sony ynglŷn â gweithgynhyrchu sy’n ychwanegu gwerth uchel yng Nghymru lle’r oedd sgiliau, ymroddiad a

phenderfyniad yn ystyriaethau masnachol allweddol i'r cwmni, yn enghraifft dda o Lywodraeth a'r sector preifat yn gweithio gyda'i gilydd er lles Cymru.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei bolisïau ar gyfer cefnogi busnesau bach yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ47389)

**Andrew Davies:** Mae Llygad Busnes yn darparu gwasanaeth gwybodaeth am ddim ac mae cymorth ymarferol ar gael drwy raglen Cymorth Cyffredinol i Fusnesau. Yr ydym yn cyhoeddi cyfleoedd contractio gwerth isel yn y sector cyhoeddus ar wefan sell2wales a gall y rhaglen datblygu cyflenwyr lleol roi cyngor ymarferol i gwmnïau sy'n dymuno tendro. Gall cwmnïau sy'n anelu at dyfu gael hyd i gymorth ariannol drwy Gyllid Cymru a grantiau buddsoddi'r Cynulliad.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog esbonio sut mae ei bolisïau yn effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ47390)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn bwriadu cyhoeddi drafft o strategaeth drafnidiaeth i Gymru ar gyfer ymgynghori yr haf hwn. Bydd y strategaeth ddrafft yn canolbwyntio ar y rôl y gall trafnidiaeth ei chwarae o ran cyflwyno agenda polisi Llywodraeth y Cynulliad mewn meysydd fel cynllunio gofodol, datblygu economaidd, addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr amgylchedd a thwristiaeth.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am 'Gyflawni ein Potensial 2006-2013'? (WAQ47393)

**Andrew Davies:** Fel y dywedwyd yn fy ateb cynharach i WAQ47090, lansiwyd 'Cyflawni ein Potensial' gan Brif Weinidog Cymru ym mis Mawrth 2000. Darganfu adolygiad hanner tymor fod cynnydd da wedi'i wneud ar roi'r cynllun gweithredu ar waith drwy ystod o fentrau yn seiliedig ar bartneriaethau. Cafodd yr adolygiad ei oleuo gan ymarferiad ar y dyfodol a wnaethpwyd gan Henley ac uwch-gynhadledd dwristiaeth i'r DU, ynghyd ag ymarferiad ymgynghori helaeth. Mae'r adolygiad wedi arwain at strategaeth wedi'i diweddaru a fydd yn cwmpasu'r cyfnod o 2006 i 2013 yn unol â rhaglenni'r cronfeydd strwythurol newydd. Caiff y strategaeth ddiwygiedig ei chynnal gan gynllun gweithredu newydd a ddyluniwyd i fynd i'r afael â'r sialensiau strategol sy'n wynebu'r diwydiant.

**Carl Sargeant:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn Sir y Fflint? (WAQ47394)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn buddsoddi'n drwm mewn gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru. Dyrannwyd £463,000 i Gyngor Sir y Fflint yn 2006-07 fel cymhorthdal tuag at fysiau a thrafnidiaeth gymunedol. Mae cynllun peilot yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yn cynnwys Sir y Fflint, yn profi dichonolrwydd teithio ar y bws am hanner pris i bobl ifanc 16 i 18 oed. Yr wyf yn ariannu rhaglen fuddsoddi mewn rheilffyrdd ledled Cymru gyda'n pedwar consortiwm trafnidiaeth. Yr wyf wedi dyfarnu £300,000 i Gyngor Sir y Fflint yn y flwyddyn ariannol gyfredol i gefnogi prosiect trafnidiaeth sy'n ymateb i alw ar Lannau Dyfrdwy. Dyfarnwyd £250,000 i Welsh Border Community Transport sydd wedi'i leoli yn Sir y Fflint dros ddwy flynedd i wella hygyrchedd trafnidiaeth gymunedol i bobl sydd ag anabledd difrifol.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fusnesau bach? (WAQ47395)

**Andrew Davies:** Mae busnesau bach yn allweddol i lwyddiant economi Cymru. Yr ydym wedi dangos ymrwymiad parhaus i ddarparu cefnogaeth i ystod eang o fusnesau bach yng Nghymru drwy, er enghraifft, reolaeth unswydd ar gyfrifon, cymorth cyffredinol i fusnesau, anogaeth i arloesi a mabwysiadu'r dechnoleg TG ddiweddaraf. Mae cymorth ar gael hefyd i grwpiau sectorau allweddol drwy

gyflenwi atebion addas o ran eiddo a safleoedd ac mae cymorth ariannol ar gael drwy Gyllid Cymru. Mae mentrau eraill fel sell2wales yn annog busnesau bach i fanteisio ar gyfleoedd masnachol sy'n deillio oddi mewn i'r sector cyhoeddus ac a gefnogir gan y rhaglen datblygu cyflenwyr lleol.

Mae Llygad Busnes yn gweithredu fel pwynt cyfeirio allweddol i fusnesau bach y gellir eu cynghori a'u cyfeirio tuag at yr amrywiaeth eang o beirianweithiau ymyrryd sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan y sector cyhoeddus ehangach a chan y sector preifat.

**David Melding:** Yn dilyn WAQ43773, sawl seiclwr a fu farw o ganlyniad i ddamwain â modur yn 2005, ac a wnaiff y Gweinidog ddadgyfuno'r data ar gyfer y grwpiau oed canlynol: 0-4; 5-7; 8-11; 12-15; 16-19; 20-24; 25-29; 30-39; 40-49; 50-59, a 60 a hyn? (WAQ47420)

**Andrew Davies:** Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y marwolaethau ymhlith seiclwyr yng Nghymru yn ystod 2005:

**Marwolaethau ymhlith seiclwyr yng Nghymru yn ystod 2005 (a) (b)**

| Oed y person a fu farw | Seiclwyr |
|---|---|
| 0-4 | 0 |
| 5-7 | 0 |
| 8-11 | 0 |
| 12-15 | 0 |
| 16-19 | 0 |
| 20-24 | 0 |
| 25-29 | 0 |
| 30-39 | 1 |
| 40-49 | 1 |
| 50-59 | 0 |
| 60+ | 0 |
| Pob oedran | 2 |

a) Mae'r ystadegau'n cyfeirio at ddamweiniau anafiadau personol ar ffyrdd cyhoeddus yr adroddwyd amdanynt wrth yr heddlu ac a anfonwyd ymlaen at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae ffigurau am farwolaethau'n cyfeirio at bobl a laddwyd ar unwaith neu a fu farw o fewn 30 diwrnod i'r ddamwain.
b) Mae'r data ar gyfer 2005 yn rhai dros dro ar hyn o bryd gan nad yw heddlu gogledd Cymru eto wedi cadarnhau ei holl ddata damweiniau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**David Melding:** Yn dilyn WAQ43772, sawl cerddwr a fu farw o ganlyniad i ddamwain â modur yn 2005, ac a wnaiff y Gweinidog ddadgyfuno'r data ar gyfer y grwpiau oed canlynol: 0-4; 5-7; 8-11; 12-15; 16-19; 20-24; 25-29; 30-39; 40-49; 50-59, a 60 a hyn? (WAQ47421)

**Andrew Davies:** Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y marwolaethau ymhlith cerddwyr yng Nghymru yn ystod 2005:

**Marwolaethau ymhlith cerddwyr yng Nghymru yn ystod 2005 (a) (b)**

| Oed y person a fu farw | Cerddwyr |
|---|---|
| 0-4 | 0 |
| 5-7 | 1 |
| 8-11 | 1 |
| 12-15 | 1 |
| 16-19 | 2 |
| 20-24 | 0 |
| 25-29 | 2 |
| 30-39 | 2 |

| | |
|---|---|
| 40-49 | 3 |
| 50-59 | 3 |
| 60+ | 17 |
| Pob oedran | 32 |

a) Mae'r ystadegau'n cyfeirio at ddamweiniau anafiadau personol ar ffyrdd cyhoeddus yr adroddwyd amdanynt wrth yr heddlu ac a anfonwyd ymlaen at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae ffigurau am farwolaethau'n cyfeirio at bobl a laddwyd ar unwaith neu a fu farw o fewn 30 diwrnod i'r ddamwain.
b) Mae'r data ar gyfer 2005 yn rhai dros dro ar hyn o bryd gan nad yw heddlu gogledd Cymru eto wedi cadarnhau ei holl ddata damweiniau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan sut ac ymhle y mae Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Gwaith Cymunedol ac Ieuenctid, Gwaith Datblygu Cymunedol a Gwaith Chwarae yng Nghymru, a oedd gynt dan law Cyngor Ieuenctid Cymru, yn dod yn rhan o'r strwythur adrannol newydd a beth yw ei statws cyfreithiol fel corff annibynnol? (WAQ47287)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Yr wyf wedi ymrwymo i barhau i gefnogi gwaith y Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru oherwydd ei rôl werthfawr mewn cymeradwyo cyrsiau hyfforddi mewn gwaith cymunedol ac ieuenctid ac yn fwy diweddar yr wyf wedi cynyddu ei gylch gorchwyl i gynnwys chwarae a datblygu cymunedol.

Yr oedd Safonau Addysg a Hyfforddiant yn y gorffennol yn gweithredu ei broses wneud penderfyniadau yn annibynnol, ond nid yw erioed wedi gweithredu fel corff annibynnol neu gyfreithiol gan ei fod o'r blaen yn gyfrifol i fwrdd Asiantaeth Ieuenctid Cymru fel un o'i is-bwyllgorau.

Mae swyddogion wedi bod yn cynnal trafodaethau gydag aelodau presennol Safonau Addysg a Hyfforddiant a chynrychiolwyr JNC yng Nghymru ar sut y gallwn gefnogi gwaith y pwyllgor o fewn pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff ystod o gynigion eu trafod yng nghyfarfod nesaf Safonau Addysg a Hyfforddiant a fydd yn digwydd yn gynnar ym mis Gorffennaf.

Yr ydym wedi neilltuo 100 diwrnod o amser swyddog i gynorthwyo'r gwaith y mae Safonau Addysg a Hyfforddiant yn ei wneud i gwrdd â'r gofynion sydd arno dan y memorandwm dealltwriaeth blaenorol rhwng Ionawr a Mawrth 2006 ac i ddarparu cymorth parhaus i sicrhau bod proses y cytunwyd arni wedi ei sefydlu cyn bod cymeradwyo cyrsiau'n mynd rhagddo ym mis Medi 2006.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brydau ysgol yng Nghymru? (WAQ47291)

**Jane Davidson:** Cyfeiriaf at y datganiad a wneuthum yn Sesiwn Llawn 16 Tachwedd 2005 ar agwedd ysgol gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at faethiad mewn ysgolion, y gellir cael gafael arno drwy'r rhyngrwyd.

Mae'r ddarpariaeth fwyd drwy gydol y diwrnod ysgol wedi bod yn destun adolygiad manwl gan y Gweithgor Bwyd mewn Ysgolion. Caiff ei adroddiad 'Blas am Oes' ei lansio ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ar 29 Mehefin 2006 yn y gynhadledd fwyd a ffitrwydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 31 Hydref 2006, a bydd y cynllun gweithredu'n dilyn yn ystod hanner gyntaf 2007.

Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw parhau i wella bwyd ysgol, wedi'i ysbrydoli gan waith y gweithgor bwyd mewn ysgolion a chan ddefnyddio pwerau ychwanegol a ddylai ddod ar gael yn y Mesur Addysg ac Arolygu sydd o flaen y Senedd ar hyn o bryd.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y rhyddheir arian ychwanegol i gwrdd â'r cynnydd o 0.6% yng nghyfraniad cyflogwyr tuag at gytundeb pensiwn newydd athrawon a datgan o ble daw'r arian, i gyllideb pwy yr aiff, un y Cynghorau Sir ynteu un yr Ysgolion, a phryd y bydd ar gael i gyflogwyr? (WAQ47304) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus***

**Y Gweinidog Cyllid:** Bydd y newidiadau y cyfeirir atynt yn codi o'r newidiadau arfaethedig i gynllun pensiwn athrawon yng Nghymru a Lloegr. Mae ymgynghori ar y newidiadau yn digwydd ar hyn o bryd tan 9 Awst 2006. Rhoddir ystyriaeth i gwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol yn dilyn canlyniad yr ymgynghori yn ymarferiad cynllunio cyllideb Llywodraeth y Cynulliad.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd gan ei hadran yn wyneb adroddiad diweddar Estyn am lwyddiant y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth? (WAQ47307)

**Jane Davidson:** Tynnodd adroddiad diweddar Estyn, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, sylw at y gwaith rhagorol a wneir gan ysgolion ac awdurdodau gyda grant o'r gronfa datblygu cerddoriaeth. Ysgrifennais at aelodau cabinet awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb dros addysg yn ddiweddar yn cymeradwyo'r pwyntiau allweddol yn adroddiad Estyn, gan mai cyfrifoldeb awdurdodau addysg lleol o hyd yw darpariaeth barhaus ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg? (WAQ47308)

**Jane Davidson:** Yr ydym eisiau annog y duedd sydd wedi dod yn amlwg yn y blynyddoedd diweddar o gael mwy o addysg cyfrwng Cymraeg ar gael a mwy yn manteisio ar hynny. Yr ydym yn buddsoddi mewn hyfforddi staff ar bob lefel fel y gellir bodloni'r galw uwch. Yr ydym yn annog awdurdodau lleol i fod yn fwy gweithgar mewn asesu'r galw a chynllunio ar gyfer y dyfodol drwy'r gyfundrefn cynllun addysg sengl newydd.

**Carl Sargeant:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i annog pobl i ddilyn llwybrau dysgu galwedigaethol? (WAQ47309)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi addysg alwedigaethol yng Nghymru yn gryf. Mae wedi cyflwyno, neu mae yn y broses o gyflwyno ystod eang o fesurau i ddatblygu ymhellach ac annog pobl i ddilyn darpariaeth alwedigaethol.

Yn 2005, penodais hyrwyddwr sgiliau galwedigaethol i ddylanwadu ar a chynyddu'r galw am sgiliau galwedigaethol ymhlith cyflogwyr ac i weithio gydag ysgolion, colegau a darparwyr eraill i wella ystod ac ansawdd y ddarpariaeth alwedigaethol.

Ym mis Tachwedd 2005 cynhyrchodd fy Nirprwy Weinidog, Christine Chapman AC, adroddiad yn nodi ei hargymhellion ar gyfer symud rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19 yn ei blaen. Mae'r rhaglen hon yn anelu at drawsnewid y cyfleoedd addysg a hyfforddiant sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Cynhyrchwyd cynllun gweithredu ym mis Mawrth 2006 ac un o brif amcanion y cynllun gweithredu yw ystyried sut y gellir datblygu'r cymwysterau galwedigaethol presennol ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed ac 16 i 19 oed ac ychwanegu atynt i gynnig elfen gymwysterau galwedigaethol gref o fewn Llwybrau Dysgu.

Fel rhan o raglen Llwybrau Dysgu 14-19, mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r cynghorau sgiliau sector i ddatblygu Llwybrau Dysgu sy'n canolbwyntio ar waith (prentisiaethau cyfunol). Mae cynghorau sgiliau sector yn gweithio'n glos gyda rhwydweithiau 14-19, ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr i ddatblygu rhaglenni peilot a fydd yn cyfuno astudiaeth mewn ysgol â phrofiad ymarferol mewn lleoliad gwaith. Mae gwaith datblygu ar y gweill yn y sectorau gweithgynhyrchu, adeiladu a

modurol ac mae gwaith hefyd yn parhau gyda sawl cyngor sgiliau sector arall i symud posibiliadau eraill yn eu blaenau. Disgwyliaf i'r cynlluniau peilot cyntaf ddechrau ym mis Medi 2007.

Fel rhan o'r adolygiad o'r rhaglen ddysgu wedi'i seilio ar waith, un o'r prif themâu yw ailgynllunio cyfleoedd dysgu galwedigaethol a'u gwneud yn fwy hygyrch fel eu bod yn ddewis dichonadwy i'r bobl hynny sy'n chwilio am ddewis arall yn lle dysgu hollol academaidd. Mae'r adolygiad o'r rhaglen ddysgu wedi'i seilio ar waith yn amserol oherwydd y gall agor rhagor o gyfleoedd wrth ddatblygu rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19.

Mae pob rhwydwaith ardal leol wedi cynnwys addysg alwedigaethol yn ei chynllun datblygu blynyddol ar gyfer y rhwydwaith yn 2006-07. Mewn llawer o achosion mae hynny wedi golygu llwybrau galwedigaethol newydd gyda phartneriaethau a ffurfiwyd rhwng ysgolion, sefydliadau addysg bellach a/neu ddarparwyr dysgu wedi'i seilio ar waith. Mae rhai Rhwydweithiau Addysg Lleol yn bwriadu defnyddio eu dyraniad cyfalaf ar gyfer adnewyddu neu adeiladu canolfannau sgiliau galwedigaethol newydd ar gyfer y grŵp oedran hwn. Mae gofyn i bob Rhwydwaith Addysg Lleol gynnwys addysg sy'n ymwneud â gwaith o fewn eu cynlluniau datblygu blynyddol ar gyfer y rhwydwaith.

Mae fy adran yn y broses o ddatblygu canllawiau i ysgolion ar gyfer bwrw ymlaen ag addysg alwedigaethol i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4. Bydd y rhain yn nodi elfennau allweddol mewn darpariaeth lwyddiannus a'r sialensiau y mae angen i sefydliadau fynd i'r afael â hwy gydag ystod o astudiaethau achos i gefnogi hynny. Byddir yn ymgynghori ar y canllawiau ar ddechrau tymor yr hydref, bydd fersiwn derfynol ar gael ar y wefan cyn y Nadolig a darperir copïau caled i ysgolion uwchradd i gyd yn y flwyddyn newydd.

Yr ydym yn rhagbrofi cymhwyster bagloriaeth Cymru mewn 31 o ysgolion a cholegau ledled Cymru ar lefelau uwch a chanolradd. Gan adeiladu ar hyn, caiff model y lefel sylfaenol ei ragbrofi ar y cyd â'r ddarpariaeth ganolradd mewn addysg 14-19 o fis Medi eleni ymlaen ac, yn ddibynnol ar ganlyniad gwerthusiad allanol, caiff bagloriaeth Cymru ei lledaenu mewn darpariaeth ôl-16 o fis Medi 2007 ymlaen. Mae rhaglen bagloriaeth Cymru wedi ei chynllunio'n arbennig i ganiatáu cynnwys cymwysterau galwedigaethol ac i roi cydnabyddiaeth gyfartal i ddysgu academaidd a llwybrau galwedigaethol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn ariannu dau gynllun peilot a nifer o gynlluniau datblygu dwyieithog ar gyfer darpariaeth gydweithredol rhwng ysgolion a cholegau, sy'n ceisio ehangu'r ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar lwybrau galwedigaethol a chysylltiedig â galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n ddwyieithog.

Mae rhaglen Re-Act yn becyn cymorth sy'n cynorthwyo unigolion i ennill sgiliau newydd, goresgyn rhwystrau i gyfleoedd gwaith yn y dyfodol a gwella eu cyfle o fynd yn ôl i weithio yn yr amser byrraf posibl ar ôl colli gwaith neu rybudd o golli gwaith.

Yn olaf, mae nifer o fentrau marchnata wedi eu lansio, neu'n cael eu lansio'n fuan i annog mwy o bobl i fanteisio ar y ddarpariaeth alwedigaethol yng Nghymru:

- Sgiliau. Pobl. Llwyddiant – am y tro cyntaf, caiff yr holl gynhyrchion/gwasanaethau sy'n ymwneud â sgiliau a gynigir i fusnesau yng Nghymru gan yr adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau eu hyrwyddo dan faner rhaglen datblygu'r gweithlu. Cafodd cynghorwyr datblygu adnoddau dynol eu penodi i gynnig y gwasanaeth hwn i fusnesau.
- Arweiniad cyflogwyr ac unigolion i brentisiaethau – mae'r arweiniad hwn yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd ac mae'n cynnig chwe astudiaeth achos sector-benodol sy'n dangos y manteision i fusnesau o ddysgu wedi'i seilio ar waith.
- 'Eich Arweiniad Chi i Hyfforddiant a Chefnogaeth' – adnodd a ddatblygwyd ar gyfer asiantaethau atgyfeirio gyda gwybodaeth gyfredol am gyfleoedd hyfforddi ac ariannu. Cafodd yr arweiniad ei ddosbarthu i bob swyddfa ranbarthol Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith a chanolfannau Learn Direct.
- Where Now? – ymgyrch flynyddol sy'n rhoi gwybodaeth i bobl ifanc ar ddewisiadau Ôl-16 ac fe'i datblygwyd ar y cyd â Gyrfa Cymru.

- Dyfarniadau prentisiaethau modern – dathliad o'r safonau uchel a gyrhaeddir gan lawer o gyflogwyr, cyrff dyfarnu ac ymgeiswyr mewn prentisiaethau modern.
- Cronfa Ddata Dewisiadau Dysgu – cyfleuster chwilio ar y we sy'n darparu gwybodaeth ar yr holl gyfleoedd dysgu ôl-16. Datblygwyd y gronfa ddata ar y cyd â Gyrfa Cymru/Learn Direct a chaiff y wefan ei lansio yn hydref 2006.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dewisiadau chwaraeon sydd ar gael i blant mewn ysgolion? (WAQ47310)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod y rôl bwysig y mae chwaraeon ac addysg gorfforol yn ei chwarae mewn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau bywyd megis gwaith tîm ac arwain yn ogystal â gwella ffitrwydd corfforol. Dyna pam y mae Addysg Gorfforol, yn cynnwys gweithgareddau dan do a rhai awyr agored, yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm i bobl ifanc o bob oed ym mhob un o'r pedwar cyfnod allweddol.

I fodloni gofynion rhaglen astudio'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Addysg Gorfforol mae gofyn i bob ysgol ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau fel y gallant ddatblygu a defnyddio eu sgiliau mewn sefyllfaoedd sy'n addas i'w gallu. Mae hynny'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer ystod eang o chwaraeon, yn cynnwys athletau, nofio a chwaraeon. Er enghraifft yng nghyfnod allweddol 3, dylai disgyblion ymgymryd ag ymarfer a gêmau sy'n ymwneud ag iechyd a hefyd gael cyfle i gymryd rhan mewn dau weithgaredd a ddewisir o gymnasteg, dawns, nofio, athletau a gweithgareddau awyr agored ac anturus. Er hynny, o fewn y fframwaith hwn cyfrifoldeb pob ysgol unigol yw penderfynu yr ystod benodol o weithgareddau a gynigir i ddisgyblion yng nghyd-destun cynllun gwaith yr ysgol a'r cyfleusterau sydd ar gael.

Mae manylion llawn y gofynion ar gyfer pob cyfnod allweddol wedi eu nodi yn 'Addysg Gorfforol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru' a gyhoeddwyd gan ACCAC a'r Cynulliad Cenedlaethol. Gellir gweld copi o'r canllawiau ar www.new.wales.gov.uk

Yr wyf yn ymroddedig i wella ystod a safon Addysg Gorfforol a chwaraeon ysgol ac yn ystod y pum mlynedd diwethaf yr wyf wedi trefnu bod cyfanswm o £5 miliwn ar gael i Gyngor Chwaraeon Cymru i arwain ar weithredu'r argymhellion allweddol yn y cynllun gweithredu ar Addysg Gorfforol a chwaraeon ysgol yng Nghymru. I adeiladu ar lwyddiant y fenter hyd yma yr wyf wedi cytuno ar gyllid ychwanegol o £1.9 miliwn ar gyfer y fenter yn y flwyddyn gyfredol.

Elfen ganolog o'r gwaith yw sefydlu canolfannau datblygu ym mhob ardal awdurdod lleol sy'n tynnu ysgolion a phartneriaid lleol at ei gilydd i wella cyfleoedd drwy rannu arbenigedd staff, cyfleusterau ac arferion da gyda tharged o ddwy awr o amser cwricwlwm bob wythnos. Mae data a gasglwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac Estyn yn dangos bod ysgolion menter Addysg Gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yn gwneud cynnydd da. Yr oeddwn hefyd yn falch o weld i'r prif arolygydd, yn ei hadroddiad blynyddol am 2004-05, gasglu bod 99 y cant o dosbarthiadau Addysg Gorfforol a arolygwyd mewn ysgolion cynradd a 90 y cant o ddosbarthiadau ysgolion uwchradd wedi eu hasesu ar safon 3 neu uwch.

Mae menter addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yn cyflenwi mentrau eraill a arweinir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac yn enwedig Campau'r Ddraig, sy'n ceisio hyrwyddo chwaraeon allgyrsiol mewn ysgolion cynradd gan ganolbwyntio ar bêl-droed, pêl-rwyd, rygbi, athletau, hoci, tennis a chriced. Hyd yma mae 93 y cant o'r ysgolion cynradd cymwys yn cymryd rhan yng Nghampau'r Ddraig. Fel rhan o weithredu 'Dringo'n Uwch', caiff hyn ei estyn i ysgolion uwchradd drwy'r rhaglen chwaraeon mewn ysgolion uwchradd.

Cefnogir a chyflenwir y gwaith hwn gan y £48 miliwn y mae Cronfa Fawr y Loteri wedi ei ddarparu i wella cyfleusterau ar gyfer Addysg Gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion.

Mae menter addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yn cyflenwi ac yn cefnogi rhaglenni ehangach traws-bynciol y Cynulliad. Er enghraifft, yn ychwanegol at gymryd rhan yng Nghampau'r Ddraig, mae

ysgolion addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion hefyd yn rhan o rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach. Mae hon yn esiampl wych o sut y gellir tynnu mentrau at ei gilydd ar lefel leol i gynorthwyo ysgolion i hyrwyddo iechyd a ffitrwydd.

**Laura Anne Jones:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi disgyblion sydd â dyslecsia? (WAQ47311)

**Jane Davidson:** Sefydlwyd grŵp cyfeirio allanol ar anawsterau dysgu penodol, sy'n cynnwys dyslecsia, dyspracsia a dyscalculia, ym mis Mawrth 2006 fel is-grŵp o grŵp ymgynghorol Cymru ar anghenion addysgol arbennig i ystyried anghenion y grŵp hwn o ddysgwyr a beth yw'r ffordd orau o'u cefnogi mewn ysgolion yng Nghymru. Mae gan y grŵp gynrychiolaeth eang o blith rhanddeiliaid yn cynnwys awdurdodau addysg lleol, ysgolion, sefydliadau addysg uwch, y sector preifat a gwirfoddol, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill sydd ag arbenigedd yn y maes o bob rhan o Gymru.

Byddir yn gwneud archwiliad o gefnogaeth i ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol ar draws AALlau yn nhymor yr hydref 2006. Wedi hynny bwriadwn gyhoeddi safonau ansawdd o ran cymorth addysgol i blant a phobl ifanc sydd ar anawsterau dysgu penodol.

Yn gynharach eleni bu i ni gynorthwyo Cymdeithas Dyslecsia Prydain Cymru drwy ddarparu £25,000 tuag at gostau argraffu a dosbarthu pecyn adnoddau 'Achieving Dyslexia Friendly Schools in Wales'. Fel Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yr oeddwn yn falch iawn o gael ysgrifennu'r rhagair i'r pecyn hwn, sy'n anelu at roi cyngor i ysgolion ar sut i fodloni anghenion disgyblion sydd â dyslecsia. Lansiwyd y pecynnau dwyieithog hyn ym mis Mai 2006 ac maent nawr wedi eu dosbarthu i bob ysgol.

Cefais drafodaethau hefyd yn gynharach y mis hwn gyda Syr Jackie Stewart ynglŷn â ffyrdd posibl y gallai ef weithio gyda ni yng Nghymru i fynd i'r afael â materion dyslecsia ac mae fy swyddogion ar hyn o bryd mewn cysylltiad â'i swyddfa i weld pa feysydd cydweithredu posibl y gellid eu datblygu.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o arian a werir gan gynghorau lleol yng Nghymru ar wella adeiladau ysgolion? (WAQ47313)

**Jane Davidson:** Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth y Cynulliad StatsWales/StatsCymru yn dangos bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2004-05 wedi gwario £143.758 miliwn ar fuddsoddiad cyfalafol mewn addysg (yn cynnwys gwasanaethau ieuenctid). Y rhagolygon ar gyfer 2005-06 yw £169.248 miliwn.

**Laura Anne Jones:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wneud i gefnogi'r rheiny sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ein system addysg yng Nghymru? (WAQ47314)

**Jane Davidson:** Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (2002) yn sicrhau agwedd gyson tuag at wasanaethau AAA yn yr holl awdurdodau ledled Cymru. Cyflenwir hyn gan lawlyfr i ysgolion sy'n dynodi arferion da a gyhoeddwyd yn 2003.

Yr ydym yn datblygu polisi cynhwysiant a fframwaith perfformiad a fydd yn dod â gwelliannau i ystod o wasanaethau cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yr ydym hefyd yn datblygu safonau ansawdd i gwrdd ag ystod amrywiol o anghenion o'r fath.

Cyflwynodd Deddf Addysg 2002 bwerau ar gyfer Cymru'n unig i'n galluogi i ddatblygu darpariaeth ranbarthol yng Nghymru. Eisoes, trefnwyd bod cyllid o fwy na £6 miliwn ar gael ac yr ydym yn dal i drafod gydag awdurdodau ynglŷn â phrosiectau rhanbarthol eraill.

Yr ydym wedi sefydlu prosiectau peilot ar gyfer datblygu gwasanaethau lleferydd ac iaith – eisoes dyrannwyd £3 miliwn dros dair blynedd. Yr oeddwn hefyd yn falch o gyhoeddi yn gynharach eleni becyn cyllid tair blynedd, gwerth £5.1 miliwn, sydd wedi'i fwriadu i ddatgloi potensial ysgolion arbennig yng Nghymru. Ar ben hynny, yn y ddwy flynedd er 2004-05, mae'r Cynulliad hefyd wedi dyrannu £1 miliwn drwy ei grant offer arbenigol i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i alluogi ysgolion i brynu offer arbenigol i alluogi rhagor o blant a phobl ifanc i gael mynediad i'r cwricwlwm.

Yn bwysig, er 2003, mae gwaith datblygu polisïau allweddol wedi bod ar y gweill gydag adolygiad polisi'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o AAA. Mae'r pwyllgor wedi adrodd ar ddau o'i dri chyfnod – dynodi'n gynnar ac ymyrryd (a gwblhawyd fis Rhagfyr diwethaf) ac asesu a pharatoi datganiadau statudol (a gwblhawyd ym mis Mai 2006). Y mae newydd gychwyn ar y cam olaf, sy'n mynd i'r afael â materion pontio.

**Owen John Thomas:** Pryd wnaiff y Gweinidog adroddiad am y cynlluniau i hyrwyddo addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg? (WAQ47315)

**Jane Davidson:** Ers adroddiad y grŵp llywio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yr wyf wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol o tua £4 miliwn i symud ymlaen â mesurau i fynd i'r afael â materion cyflenwad a galw mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Disgwyliaf wneud rhagor o gyhoeddiadau, unwaith y byddaf wedi derbyn cyngor gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn hwyrach yn y flwyddyn.

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i atal oedi pellach gyda chyflwyno graddau i'n myfyrwyr prifysgol yng Nghymru? (WAQ47316)

**Jane Davidson:** Ni fydd unrhyw oedi gyda seremonïau graddio mwn prifysgolion yng Nghymru eleni.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae hi'n ei rhoi i Ysgolion Bach yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ47317)

**Jane Davidson:** Mae'r cyllid ar gyfer cefnogaeth ychwanegol i ysgolion bach yn siroedd Gwynedd, Conwy, Powys, Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin yn dod i gyfanswm o £1,777,061 am flwyddyn ariannol 2006-07.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei hystyriaethau ynghylch yr angen am ganllawiau i fynd i'r afael â materion sy'n deillio o wefannau tebyg i rai 'ratemyteachers'? (WAQ47318)

**Jane Davidson:** Nid wyf yn gallu rheoleiddio'r defnydd o'r rhyngrwyd yn gyffredinol. Yr wyf, er hynny, yn hollol glir ar y mater fy mod yn disgwyl i bob AALl ac ysgol fod â pholisïau i amddiffyn disgyblion ysgol rhag mynediad ar-lein i ddeunyddiau anaddas. Dylai ysgolion rwystro mynediad i wefannau anaddas a dylai eu polisïau ymddygiad fod yn glir ynglŷn â beth yw defnydd amhriodol o dechnoleg, yn cynnwys gwefannau, a pha gosbau fyddai'n cael eu gweithredu.

Mae'n bosibl y byddai unigolion yr effeithir arnynt gan bostiadau ar wefannau o'r fath yn dymuno codi'r mater gyda'u sefydliad proffesiynol a allai o bosibl gynnig cyngor am yr opsiynau.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd gyda sicrhau bod Polisi Addysg yng Nghymru yn ymdrin fwyfwy ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol? (WAQ47319)

**Jane Davidson:** Mae ein polisïau addysgol yn ceisio gwrthweithio amddifadedd economaidd-gymdeithasol mewn nifer o wahanol ffyrdd.

**Blynyddoedd Cynnar** – mae'r gefnogaeth a'r ysgogiad y mae plant yn eu derbyn yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn effeithio'n sylfaenol ar eu galluoedd a'u potensial drwy gydol eu bywyd. Er mwyn cydnabod hynny yr ydym yn targedu'r blynyddoedd cynnar yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

**Cymorth**
Mae cynlluniau Cymorth yn canolbwyntio ar ardaloedd difreintiedig ac yn enwedig ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Cyrhaeddir llawer o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd dan anfantais ledled Cymru drwy fwy na 1,000 o brosiectau unigol sy'n derbyn cyllid. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau wedi'u hanelu at blant sydd mewn perygl o golli diddordeb mewn addysg.

**Dechrau'n Deg**
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £46 miliwn o gyllid i fenter Dechrau'n Deg dros y ddwy flynedd o 2006 i 2008. Caiff hwn ei dargedu at blant 0 i dair mlwydd oed yn nalgylchoedd yr ysgolion cynradd mwyaf difreintiedig. Y prif beth a gaiff ei gynnig fydd gofal plant rhan-amser am ddim o ansawdd uchel i blant dwy oed, o ystyried y dystiolaeth o effaith fanteisiol ymyriadau o'r math hwn ar lefelau cymwysterau ymhellach ymlaen. Bydd Dechrau'n Deg hefyd yn cynnwys cefnogaeth i rieni, rhagor o ymweliadau iechyd ac estyniad i'r rhaglen lyfrau i fabanod.

**Gwella Safonau** – drwy gydol y continwwm addysg a dysgu yr ydym yn canolbwyntio'n benodol ar wella safonau a chyrhaeddiad y chwartel isaf.

**Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant/Cronfa Ysgolion Gwell**
Dros y pum mlynedd diwethaf mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu dros £256 miliwn drwy'r rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant/cronfa ysgolion gwell i awdurdodau lleol yng Nghymru. Gwneir y dyrannu drwy gyfeirio at fformiwla sy'n cynnwys ffactor ar gyfer amddifadedd. Mae cyllid wedi bod ar gael i ymdrin â pherfformiad isel drwy arian refeniw ychwanegol er 2001-02.

Mae'r gronfa ysgolion gwell (GCAH o'r blaen – grantiau cynnal addysg a hyfforddiant) yn darparu cefnogaeth gychwynnol i helpu ysgolion ac awdurdodau i weithredu mentrau newydd a datblygu dulliau arloesol o godi safonau cyrhaeddiad mewn ysgolion. Caiff y cyllid ei gyfyngu fel arfer i dair blynedd (gyda 2004-05 yn flwyddyn un), yn dibynnu ar werthusiad ffurfiol. Y bwriad yw y bydd rhaglenni llwyddiannus yn dod yn rhan annatod o addysgu a dysgu prif ffrwd.

Ar gyfer 2006-07 y Meysydd Gweithgaredd sy'n gymwys am grant yw:

Gweithgaredd 1: Datblygu'r Cwricwlwm
Gweithgaredd 2: Hyfforddi Llywodraethwyr
Gweithgaredd 3: Cefnogi Disgyblion
Gweithgaredd 4: Anghenion Dysgu Ychwanegol
Gweithgaredd 5: Iaith Pawb mewn Ysgolion
Gweithgaredd 6: TGCh mewn Ysgolion

Byddwn yn ymgynghori ag AALlau yn fuan ar y cylchlythyr drafft ar gyfer 2007-08.

**Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion (Rhagori)**
Darparwyd grant o £3 miliwn y flwyddyn dros y tair blynedd ddiwethaf i godi perfformiad isel mewn ysgolion, llawer ohonynt yn gweithredu mewn ardaloedd difreintiedig. O 2006-07 ymlaen caiff y cyllid hwn ynghyd â £13 miliwn ychwanegol yn dilyn datganiad cyllideb y Canghellor ym mis Mawrth 2006, eu dwyn at ei gilydd dan raglen codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru i gefnogi disgyblion dan anfantais mewn ysgolion lle y mae 20 y cant neu fwy o'r disgyblion hynny'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac am gymorth dysgu i blant sy'n derbyn gofal. Bydd y cyllid hwn yn rhedeg am ddwy flynedd a disgwylir iddo gael effaith sylweddol ar ddysgu i blant dan anfantais yn y 600 a mwy o ysgolion a fydd yn elwa ohono.

Bwriadai rhaglen Rhagori dargedu'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad a gwella disgwyliadau a chyraeddiadau addysgol disgyblion difreintiedig o bob oed.

Mae gan y rhaglen dair prif elfen:

- Dosberthir £14.4 miliwn i ysgolion targed i ariannu prosiectau a mentrau penodol sy'n anelu at gefnogi disgyblion sydd dan anfantais neu sydd â'r perygl mwyaf o gyrhaeddiad isel neu adael addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau:
- Dosberthir £1 miliwn i awdurdodau lleol i'w galluogi i roi gwell cefnogaeth i ddysgu plant sy'n derbyn gofal;
- Bydd y gweddill yn ariannu tîm o weithwyr proffesiynol mewn gwella ysgolion i weithio gydag AALlau ac ysgolion i ddynodi a rhannu arferion gorau a sefydlu sail gadarn o dystiolaeth fel sylfaen ar gyfer cyfeiriad polisi a gwerthusiad allanol yn y dyfodol.

Yr ydym yn parhau i ddynodi a rhannu'r arferion da a ganfyddir mewn ysgolion llwyddiannus mewn ardaloedd difreintiedig, drwy brosiect lleihau'r bwlch mewn perfformiad ysgolion, ac annog a chynorthwyo ysgolion i ddatblygu ffocws cymunedol cryf sy'n helpu i wella cyrhaeddiad disgyblion a pherfformiad yr ysgol.

Cyflwynwyd grant gwisg ysgol o £75 y flwyddyn i ddisgyblion blwyddyn 7 a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn 2005-06 ac mae'n parhau yn 2006-07.

**Arfogi Pobl Ifanc ar gyfer Dysgu** – ceir tystiolaeth gynyddol bod diet cytbwys yn bwysig i berfformiad ysgol ac i iechyd fel ei gilydd. Dyna'r rheswm dros ddull ysgol gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at fwyd a maethiad.

**Brecwast Ysgol**

Mae'r fenter brecwast am ddim yn elfen allweddol o'r dull hwn gan fod tystiolaeth yn awgrymu mai brecwast yw pryd pwysicaf y dydd a bod plant sy'n cael cyfle i fwyta brecwast iach yn fwy tebygol o gyflawni eu potensial addysgol llawn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid fel y gall pob plentyn o oed ysgol gynradd sydd wedi cofrestru mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru gael brecwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd. Caiff pob ysgol gynnig cymryd rhan erbyn mis Ionawr 2007. Mae dros 500 o ysgolion eisoes wedi cofrestru i gymryd rhan yn y fenter ac mae rhai eraill yn dewis gwneud hynny yn wythnosol wrth i fanteision y cynllun brecwast am ddim ddod yn gynyddol amlwg.

**Prydau Ysgol**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud prydau ysgol yn un o'i deg blaenoriaeth uchaf yn ei chynllun datblygiad cynaliadwy, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2004. Bu i ni sefydlu'r gweithgor bwyd mewn ysgolion i archwilio sut i wella ansawdd a safonau maethol prydau ysgol, a sut i sicrhau dull cyson a rhesymegol i symud gwelliannau mewn bwyd a maethiad yn ein hysgolion yn eu blaenau. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i giniawau ysgol ond hefyd i'r holl fwyd a ddarperir ar gyfer ein plant yn ystod cwrs y diwrnod ysgol.

Caiff adroddiad y grŵp 'Blas am Oes' ei lansio ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ar 29 Mehefin 2006 yn y gynhadledd bwyd a ffitrwydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 31 Hydref 2006, a bydd y cynllun gweithredu'n dilyn yn ystod hanner cyntaf 2007.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach drwy ddarparu cyllid ac arweiniad i helpu gwasanaethau iechyd ac addysg sy'n gweithio mewn partneriaethau i sefydlu a rhedeg cynlluniau ysgolion iach lleol yn holl ardaloedd Cymru. Mae'r cynlluniau lleol hyn yn helpu ysgolion yn eu hardal i wneud newidiadau er lles iechyd da. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n achredu cynlluniau lleol fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru. Mae pob un o'r 22 cynllun lleol wedi ei achredu, ac mae dros 1000 o ysgolion yn cymryd rhan ar hyn o bryd.

Byddwch yn ymwybodol fod gweithredu ar ysgolion iach wedi'i gynnwys yn yr ymchwiliad annibynnol ar gyfer yr adroddiad ar anghyfartaleddau mewn iechyd (Acheson, 1998) a argymhellodd 'ddatblygu ymhellach ysgolion sy'n hybu iechyd, yn canolbwyntio yn y lle cyntaf, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymunedau difreintiedig'.

**Gwella Mynediad i Gyfleoedd Dysgu** – yn enwedig i'r rheiny sydd ag anghenion ychwanegol.

**Addysg Gynhwysol**
Wrth ystyried polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gwrdd ag anghenion addysgol plant a phobl ifanc unigol, caiff polisi cynhwysiant cenedlaethol a fframwaith perfformiad eu datblygu. Bydd yn dod â phrif faterion/egwyddorion addysg gynhwysol at ei gilydd ac yn annog trefniadau gweithio cydweithredol o fewn a rhwng asiantaethau statudol.

Y bwriad yn ystod y tair blynedd nesaf yw hyrwyddo strategaeth o addysg gynhwysol a fydd yn sicrhau bod gan AALlau ac ysgolion gynlluniau rhesymegol wedi'u sefydlu ar gyfer datblygu eu polisïau cynhwysiant eu hunain, disgwyliadau uchel o ran targedau cynhwysol i'r ysgol gyfan, a strategaethau wedi'u sefydlu i sicrhau bod anghenion hyfforddi priodol y staff yn cael eu bodloni'n llawn.
Mae'r fframwaith ar gyfer addysg gynhwysol wedi'i nodi yng nghanllawiau drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' a ryddhawyd ar gyfer ymgynghori yn 2005. Dylai'r canllawiau terfynol gael eu cyhoeddi yn hydref 2006.

Byddwn yn monitro effaith cynhwysiant yng Nghymru yn fanwl iawn ac yn gofyn i Estyn fonitro arferion addysgol cynhwysol fel rhan o'i gylch gwaith yn ystod 2007-08.

**Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig**
Yr ydym wedi rhoi cychwyn ar brosiect i ddatblygu strategaeth drosfwaol i gefnogi cyrhaeddiad yr holl grwpiau disgyblion o leiafrifoedd ethnig. Bydd strategaeth y Cynulliad yn ategu ac yn cefnogi'r canllawiau gweithredu i athrawon a ddatblygir gan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Bydd y strategaeth yn cymryd agwedd gyfannol er mwyn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn rhan hanfodol o ddull cynhwysol tuag at holl bolisi addysg.

Caiff y grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig ei ddosbarthu'n flynyddol drwy grant penodol i awdurdodau lleol. Amcan y grant hwn yw gwella cydraddoldeb y cyfle dysgu i'r holl grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cynnwys, yn enwedig, fesurau i gynorthwyo plant y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a mesurau i wella safonau cyrhaeddiad a mynd i'r afael â perygl o dangyflawni. Bydd £5 miliwn ar gael yn 2006-07.

**Grant Addysg i Geiswyr Lloches**
Mae'r grant hwn wedi'i fwriadu i gefnogi awdurdodau wrth iddynt ddarparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion a gofynion cefnogi canolog ar gyfer disgyblion sy'n ceisio lloches. Mae hefyd yn cynnig swm bach o gymorth ar gyfer ceiswyr lloches sy'n oedolion sydd wedi cofrestru ar gwrs Saesneg fel iaith ychwanegol a ddarperir gan yr awdurdod. Er 2003-04, mae'r grant hefyd wedi ystyried y costau sylweddol ychwanegol ynghlwm wrth y disgyblion hynny sy'n ceisio lloches sydd ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth. Mae'r grant yn werth £2.4 miliwn yn 2006-07.

**Grant Addysg Teithwyr a Phobl wedi'u Dadleoli**
Sefydlwyd cynllun grant addysg teithwyr a phobl wedi'u dadleoli ym 1991. Nod y cynllun grant yw 'gwella presenoldeb, cyfranogiad a chyrhaeddiad disgyblion Sipsi a Theithwyr yn y system addysg yng Nghymru'. Mae'n ceisio gwneud hynny drwy ddarparu cyllid ar gyfer staff ychwanegol a chostau ar wahân i staff i gynorthwyo gydag addysg disgyblion Sipsi/Teithwyr: mae £900,000 ar gael dan y cynllun yn 2006-07.

**Cefnogaeth y Cynulliad i Ddysgu**
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i gael gwared â rhwystrau ariannol i ddysgu ac mae wedi sefydlu nifer o fesurau i annog pobl o bob oed o'r cefndiroedd lleiaf breintiedig i barhau neu i ailgychwyn

ar eu hastudiaethau. Mae grant dysgu'r Cynulliad yn darparu cefnogaeth â phrawf moddion i fyfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch a gallu ddarparu hyd at £1,500 y flwyddyn tuag at gostau yn ymwneud â'r cwrs. Mae cyllid hefyd ar gael i alluogi colegau a phrifysgolion i ddarparu cefnogaeth ddewisol ar ffurf cronfeydd ariannol wrth gefn i fyfyrwyr sydd mewn anhawster ariannol.

Erbyn diwedd Chwefror 2006, yr oedd 14,170 o grantiau dysgu'r Cynulliad wedi'u dyfarnu i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2005-06.

Yn ychwanegol at hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun lwfans cynhaliaeth addysg Cymru. Caiff y cynllun hwn ei ledaenu dros gyfnod o flynyddoedd a bydd yn darparu cefnogaeth ariannol y mae angen mawr amdani i'r bobl ifanc 16 i 18 oed hynny o gartrefi sydd ag incwm o £30,000 neu lai ac sydd eisiau parhau neu fynd yn ôl i addysg. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio'n benodol fel ysgogiad i gynyddu cyfranogiad a chadw disgyblion ac mae'n gwobrwyo presenoldeb a chyrraedd goliau dysgu.

Gall disgyblion cymwys o'r cartrefi lleiaf breintiedig yng Nghymru dderbyn lwfans presenoldeb o 10, £20 neu £30 yr wythnos ac ennill bonysau gwerth £100 hefyd.
Erbyn diwedd Mai 2006, yr oedd cyfanswm o 25,570 o fyfyrwyr wedi gwneud cais llwyddiannus am y Lwfans; yr oedd 80 y cant ohonynt yn gymwys am y swm uchaf o £30 yr wythnos.

**Gwneud Dysgu'n Fwy Perthnasol** ac estyn addysg yn yr ysgol i mewn i ddysgu gydol oes fel oedolyn

**Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**
Un o brif amcanion cymhwyster bagloriaeth Cymru, sy'n cael ei rhagbrofi nawr mewn 31 o ysgolion a cholegau ledled Cymru, yw datblygu cymhwyster cynhwysol a fydd o fudd i ystod mor eang â phosibl o ddysgwyr. Bydd datblygu lefel sylfaenol bagloriaeth Cymru, a gaiff ei rhagbrofi o fis Medi 2006 ymlaen, yn helpu i wneud hynny yn realiti.

Yn amodol ar benderfyniadau yn dilyn gwerthusiad allanol o'r peilot yr ydym ar y ffordd gywir i ehangu mewn darpariaeth ôl-16 ar lefelau uwch a chanolraddol ar gyfer Medi 2007 a chyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer rhagbrofi'r model Sylfaenol a chanolraddol mewn lleoliadau 14-19 ar 25 Mai 2006.

**Presenoldeb**
Er bod llawer o ffactorau'n effeithio ar bresenoldeb disgyblion yn yr ysgol, mae'r ystadegau'n dangos yn gyson mai yn yr ardaloedd hynny sydd â'r amddifadedd mwyaf y ceir y cyfraddau absenoldeb uchaf.

Mae nifer o fentrau penodol ar y gweill ar hyn o bryd i helpu ysgolion ac athrawon i ymdrin ag ymddygiad a phresenoldeb gwael. Darparodd y Gronfa Ysgolion Gwell £5.85 miliwn i awdurdodau addysg lleol yn 2005-06 ar gyfer cynorthwyo disgyblion, a oedd yn bennaf ar gyfer ariannu prosiectau i fynd i'r afael â materion ymddygiad a phresenoldeb.

Mae'r cyllid ar gyfer mynd i'r afael ag anniddigrwydd ymhlith ddisgyblion wedi codi £258,000 o 2006-07 ymlaen.

**Mynd i'r afael ag anniddigrwydd**
Cyhoeddwyd cynllun gweithredu i leihau nifer y rhai 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym mis Ionawr 2005 a phwysleisiai hwn gamau gweithredu a graddfeydd amser allweddol. Mae partneriaethau pobl ifanc wedi bod yn gweithio i dynnu gwybodaeth at ei gilydd i ddatblygu llinellau sylfaen lleol o wybodaeth a chadw mewn cysylltiad â'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o golli diddordeb neu sydd felly eisoes. Bydd ymchwil ar gyfer dechrau tynnu gwybodaeth llinell sylfaen at ei gilydd yn genedlaethol yn dechrau yn y misoedd nesaf.

Bydd canfyddiadau astudiaeth ymchwil a ddisgwylid ym mis Mai 2006 yn helpu i ddatblygu gwybodaeth ar bobl ifanc anoddach eu cyrraedd ac i ba raddau y maent yn manteisio ar eu hawliau. Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar bobl ifanc 11 i 25 oed a ddosberthir fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r astudiaeth yn anelu at ddatblygu diffiniad cyson o bobl ifanc nad ydynt mewn

addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar lefel leol yng Nghymru. Nid yn unig y bydd hyn yn caniatáu i ni sefydlu llinellau sylfaen cywir a chyson ar gyfer mesur nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ond bydd hefyd yn galluogi unigolion a sefydliadau ar lefel weithredol i ddefnyddio'r wybodaeth fel tystiolaeth ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu.

Mae gofyn i bartneriaethau pobl ifanc lleol gynhyrchu strategaeth dreiglol bum mlynedd, sy'n cynnwys eu cynigion ar gyfer 'cadw mewn cysylltiad' â phobl ifanc. Cynhelir dau ddigwyddiad codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth (yng ngogledd a de Cymru) ym mis Medi i helpu PPI i ddynodi materion allweddol i ganolbwyntio arnynt o fewn y maes cadw mewn cysylltiad a heb fod mewn addysg cyflogaeth na hyfforddiant ar gyfer y rownd ariannu Ewropeaidd nesaf.

Mae prosiectau 'Ymestyn Hawliau' gorllewin Cymru a'r Cymoedd (Amcan 1) a dwyrain Cymru (Amcan 3) ill dau â phwyslais penodol ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg cyflogaeth na hyfforddiant. Mae llawer o'r PPI sy'n ymwneud â'r prosiectau hyn wedi dewis ymgymryd â gweithgaredd o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd gan Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i fwrw ymlaen â phrosiectau i gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg cyflogaeth na hyfforddiant. Bydd y prosiectau hyn yn gweithredu ledled Cymru am y tair blynedd nesaf.

Yr oedd gan bob un o'r 22 rhwydwaith 14-19 £120,000 (yn cynnwys cyllid y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd) ar gael iddynt yn 2005-06 i gefnogi Llwybrau Dysgu 14-19. Ar gyfer 2006-07 mae gan bob rhwydwaith ffigwr llinell sylfaen o £136,364 ar gyfer gweithgaredd 14-16 a £1 miliwn arall wedi'i rannu rhwng y rhwydweithiau ar sail nifer y myfyrwyr ym mlynyddoedd 10/11. Mae £4 miliwn arall ar gael ar ôl 16 i gefnogi rhaglenni'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd a buddsoddiad cyfalafol i wella/uwchraddio amgylcheddau dysgu. Dros amser, wrth i ragor o gyllid ychwanegol ddod ar gael ar gyfer 14-19, disgwyliwn y caiff ystod gynyddol o ffactorau eu hystyried sy'n adlewyrchu maint a natur ardal y rhwydwaith. Mae'r rhwydweithiau nawr yn cyflwyno eu cynlluniau 14-19 blynyddol erbyn 31 Mawrth a chaiff y rheiny eu hystyried gan Lywodraeth y Cynulliad cyn cadarnhau'r cyllid.

**Prosiect Dysgu ar gyfer Troseddwyr Ifanc**

Y prosiect Dysgu ar gyfer Troseddwyr Ifanc yw ail ymgyrch Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â materion dysgu, addysg a hyfforddiant mewn perthynas â phobl ifanc o fewn y system cyfiawnder troseddol.

Nodwedd allweddol o'r gwaith yn yr ychydig fisoedd nesaf fydd cryfhau'r cysylltiadau rhwng Timau Troseddau Ieuenctid, AALlau, ysgolion a rhwydweithiau 14-19. Bydd hynny'n helpu troseddwyr ifanc sy'n gwneud dedfrydau cymunedol i gael hyd i ddarpariaeth ddysgu sy'n addas i'w hanghenion yn gyflymaf ac yn llyfnaf nag sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae'r prosiect yn hyrwyddo'r fforwm cyntaf ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i arbenigwyr Timau Troseddau Ieuenctid, a fydd yn digwydd ym mis Gorffennaf 2006. Bydd rhan o'r diwrnod yn edrych ar yr arferion sydd fwyaf addas ar gyfer mynd i'r afael â materion y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad Estyn (2005-06).

Mae'r prosiect Dysgu ar gyfer Troseddwyr Ifanc hefyd yn edrych ar ffyrdd o roi mwy o lais i bobl ifanc sydd wedi troseddu i nodi a phenderfynu ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o fodloni eu hanghenion dysgu. Bydd gwell perchnogaeth ar y materion gan bobl ifanc eu hunain yn gwella'r tebygrwydd y byddant yn gorffen rhaglenni yn llwyddiannus. Caiff ffyrdd o ddathlu eu llwyddiant, sy'n ofyniad sylfaenol dan 'Ymestyn Hawliau', hefyd eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn. Mae arweinydd y prosiect Dysgu ar gyfer Troseddwyr Ifanc yn hwyluso partneriaeth gyda Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc a'r Ddraig Ffynci, Cynulliad y Plant. Bydd hyn yn edrych ar gyfranogiad y bobl ifanc yn eu gweithgaredd yn y tymor hir. Gall hyn hefyd ymestyn i safleoedd diogel yn Lloegr lle y caiff y rhan fwyaf o droseddwyr ifanc o Gymru eu cadw.

Mae'r prosiect peilot arloesol gweithiwr cefnogi personol yn y ddalfa sy'n defnyddio methodoleg gwaith ieuenctid i gefnogi pobl ifanc yn y trawsnewid rhwng carchar a chymuned nawr wedi'i sefydlu yng ngharchar troseddwyr ifanc Stoke Heath a charchar troseddwyr ifanc Ashfield, gan weithio ar y cyd â Phartneriaethau Pobl Ifanc a Thimau Troseddau Ieuenctid yn Sir Ddinbych a Phen-y-bont ar Ogwr yn eu

tro. Mae gwerthusiad ffurfiannol yn rhedeg ar y cyd â'r peilot. Bydd canfyddiadau cychwynnol ar gael tua haf 2006. Bydd y prosiect yn rhedeg hyd at fis Rhagfyr 2006 a cheir gwerthusiad terfynol a fydd yn helpu i daflu goleuni ar ledaenu ehangach.

**Partneriaethau 'Ymestyn yn Ehangach'**
Er 2002-03, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trefnu bod £2 filiwn ychwanegol ar gael i gefnogi ehangu mynediad i addysg uwch. Mae CCAUC wedi dyrannu'r cyllid hwn i gefnogi sefydlu pedair partneriaeth ranbarthol dan fenter 'Ymestyn yn Ehangach'. Mae'r partneriaethau 'Ymestyn yn Ehangach' yn canolbwyntio'u gweithgareddau ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, ac mae'r rhain wedi eu cynllunio i godi dyheadau a chyrhaeddiad fel ei gilydd.

Mae Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn gyson yn perfformio'n well na chyfartaleddau'r DU mewn denu cymysgedd cymdeithasol eang o fyfyrwyr ac maent ar y blaen o ran cynyddu cyfranogi gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

**Y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol**
Mae'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol yn anelu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn ariannu ôl-16 ledled Cymru. Mae'n ystyried materion fel amddifadedd addysgol a phrinder y boblogaeth ddysgwyr wrth gyfrifo dyraniadau. Fel y cyfryw dylai hwyluso'r agenda 14-19 drwy ehangu'r cwricwlwm a gynigir lle mae hynny'n briodol. Mae'r system wedi'i sefydlu nawr mewn colegau Addysg Bellach a dosbarthiadau chweched AALlau a disgwylir harmoni ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr erbyn 2010. Mae data 2003-04 yn dangos bod dros 55,000 o ddysgwyr yn sefydliadau addysg bellach Cymru yn dod o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sy'n gyfystyr â'r 100 rhanbarth etholaethol mwyaf difreintiedig fel y'u diffiniwyd gan fynegai amddifadedd lluosog Cymru 2000. Mae'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol wedi'i phwysoli i gefnogi dysgu yn yr ardaloedd hyn. Yr ydym hefyd yn edrych ar ragbrofi cyfrifon cymuned sy'n dysgu, gan ganolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd difreintiedig eraill, a fydd yn cyflenwi ac yn ychwanegu gwerth at weithgareddau a chynlluniau gweithredu Cymunedau yn Gyntaf drwy ganolbwyntio ar sut y gall dysgu fod o fudd i'r gymuned.

**Sgiliau Sylfaenol**
Mae ein strategaeth sgiliau sylfaenol, 'Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri' yn pwysleisio y dylai ein dull ganolbwyntio ar y rheiny sydd â'r angen mwyaf. Fel esiampl o hynny mae'r rhaglenni iaith a chwarae a rhifau a chwarae nawr wedi eu targedu'n llawer mwy penodol at ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynigion sydd ganddi i newid y ffordd yr ariennir ysgolion? (WAQ47320)

**Jane Davidson:** Yr wyf newydd dderbyn adroddiad Pwyllgor y Cynulliad ar Ariannu Ysgolion sy'n gwenud nifer o argymhellion wedi'u hanelu at wella ' tryloywder, gwrthrychedd a thegwch yn y ffordd y caiff cyllid addysg ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru'. Yr wyf yn ystyried yr argymhellion, ar y cyd â'r Gweinidog Cyllid.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadw meysydd chwarae ysgolion yng Nghymru? (WAQ47321)

**Jane Davidson:** Mae Rheoliadau Adeiladau Ysgolion 1999 yn pennu'r gofynion o ran isafswm ardaloedd ar gyfer 'caeau chwarae gêmau tîm' wedi'i gyfrifo drwy gyfrwng fformiwla sy'n gysylltiedig ag oed a nifer y disgyblion ym mhob ysgol. Mae'n rhaid i bob ysgol ac awdurdod addysg lleol gydymffurfio â'r rhain.

Nid oes raid darparu caeau chwarae ar safle ysgol nac yn ei hymyl ond mae'n rhaid iddynt fod yn ddigon agos i'r disgyblion fedru eu cyrraedd yn hawdd, ar droed neu drwy ddefnyddio'r cludiant sydd ar gael.

Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw y dylai ysgolion i gyd, erbyn 2010, fod mewn cyflwr da yn ffisegol ac o ran cael eu cynnal yn iawn fel y gallant gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol mewn amgylchiadau addas. Mae hyn yn cynnwys y disgwyliad y budd awdurdodau'n buddsoddi mewn caeau chwarae a chyfleusterau chwaraeon.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu'r cysyniad o ysgolion estynedig yng Nghymru? (WAQ47322)

**Jane Davidson:** Yng Nghymru caiff y 'cysyniad o ysgolion estynedig' ei gyflwyno dan raglen ysgolion bro, a gyflwynwyd y llynedd. Gall ysgolion bro ddarparu sail delfrydol ar gyfer y gwasanaethau amlddisgyblaethol integredig a ragwelir yn 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau'. Er nad oes unrhyw lasbrint penodol ar gyfer ysgolion bro, yr wyf yn arbennig o awyddus i weld bod y ddarpariaeth gofal plant i gefnogi ein Strategaeth Gofal Plant a chyfleusterau chwarae yn unol â Chynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae a'r Cyfnod Sylfaen.

Defnyddiodd awdurdodau lleol y rownd gyllid gyntaf – £3l miliwn yn 2005-06 – i wneud archwiliadau o anghenion a pharatoi strategaethau i symud yr agenda ymlaen. Mae'r cyllid eleni wedi cynyddu i £3.6 miliwn. Yn ddiweddarach eleni byddaf yn lansio pecyn – sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan ContinYou Cymru – a fydd yn cynnig rhagor o syniadau, astudiaethau achos a chanllawiau i gynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion a'u partneriaid wrth symud yr agenda ysgolion bro yn ei flaen.

**Ann Jones:** A wnaiff restru'r ysgolion hynny yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu polisi 'Call yn yr Haul'? (WAQ47343)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â sefydliadau eraill yn y DU, yn cefnogi ymgyrch Call yn yr Haul Canser Research UK. Cafodd canllawiau dwyieithog yn adlewyrchu negeseuon yr ymgyrch eu hanfon i bob sefydliad cyn-ysgol/meithrin, ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru yn 2005. Nid ydym yn cadw gwybodaeth yn ganolog am ba ysgolion sydd wedi mabwysiadu polisi 'Call yn yr Haul'. Mae cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch disgyblion tra maent yn yr ysgol yn disgyn ar yr awdurdod addysg lleol. Caiff hyn ei ddirprwyo i brifathrawon fel rhan o'u cyfrifoldeb i reoli'r ysgol o ddydd i ddydd.

**Lisa Francis:** O'r £1 miliwn a ddyrannwyd dan raglen RHAGORI (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru) fel grant ar wahân ar gyfer cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, faint o arian a dderbyniodd Cyngor Sir Ceredigion ac ar beth y gwariwyd yr arian er mis Ebrill 2006? (WAQ47349)

**Jane Davidson:** Dyrannwyd £15,446 i Gyngor Sir Ceredigion fel rhan o grant RHAGORI ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn 2006-07. Mae disgwyl i'r awdurdodau i gyd gyflwyno eu cynigion am gyllid erbyn 28 Mehefin ar gyfer gweithgareddau a ariennir o'r newydd i ddechrau o fis Medi 2006.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at ddarparu addysg gerddorol yng Nghymru? (WAQ47353)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr atebion a roddais ar 9 Rhagfyr 2005 mewn ymateb i WAQ45199, WAQ45123 a WAQ45124.

**Leighton Andrews:** Pa arweiniad a gynigir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am wisgoedd addas ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys yn ystod tywydd poeth? (WAQ47361)

**Jane Davidson:** Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth addysg yn cwmpasu gwisgo gwisg ysgol. Fel rhan o'u cyfrifoldebau dros ymddygiad ysgol, gall corff llywodraethol ysgol bennu gwisg ysgol y mae gofyn i ddisgyblion ei gwisgo. Wrth wneud hynny mae gofyn i gyrff llywodraethol ystyried yr holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail rhyw a materion cyfartaledd.

Yr wyf wedi gwneud ymrwymiad y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhyddhau canllawiau i gyrff llywodraethol ysgolion ar bolisi gwisg ysgol ac yr ydym wedi ymgynghori ar ddrafft. Mae rhyddhau'r testun terfynol wedi ei ohirio i ystyried yr achos sy'n ymwneud ag Ysgol Denbigh, Luton a aeth i Dŷ'r Arglwyddi. Rhagwelaf y caiff y canllawiau eu cyhoeddi yr hydref hwn.

**David Melding:** Pa ganran o bobl 19 oed a oedd wedi gadael gofal a oedd mewn sefydliad addysg uwch yn 2004? (WAQ47403)

**David Melding:** Faint o bobl a oedd wedi gadael gofal a lwyddodd i gael lle mewn sefydliad addysg uwch yn 2004? (WAQ47404)

**David Melding:** Pa ganran o bobl 19 oed a oedd mewn sefydliad addysg uwch yn 2004? (WAQ47417)

**Jane Davidson:** Caiff canran y boblogaeth 19 mlwydd oed yn byw yng Nghymru sydd wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch ym mlwyddyn academaidd 2004-05, ei nodi yn Nhabl A isod. Dylid nodi bod y tabl yn cyfeirio at yr holl fyfyrwyr sy'n mynychu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, yn cynnwys y rheiny sydd fel arfer yn byw y tu allan i Gymru, yn hytrach na myfyrwyr sydd fel arfer â'u cartref yng Nghymru. Mae hyn er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r sail ar gyfer yr amcangyfrifon poblogaeth. Mae Tabl B yn rhoi gwybodaeth ar weithgaredd pobl ifanc a oedd wedi gadael gofal ar eu pen-blwydd yn bedair ar bymtheg, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005, ac a oedd yn derbyn gofal ar 1 Ebrill 2002: Cesglir y data hyn gan Uned Ddata Llywodraeth Leol – Cymru, gan nad yw'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn cofnodi a yw myfyrwyr wedi gadael gofal. Ni ellir felly gymharu'r ffigurau yn Nhabl B yn uniongyrchol â'r rheiny yn Nhabl A.

**Tabl A**

| | |
|---|---|
| Nifer y rhai 19 mlwydd oed sydd wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, 2004-05 (a) | 14,430 |
| Nifer y rhai 19 mlwydd oed sy'n byw yng Nghymru, 2004 (b) | 40,700 |
| Canran y rhai 19 mlwydd oed yn byw yng Nghymru sydd wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | 35% |

(a) Ar 1 Rhagfyr 2004. Yn cynnwys darpariaeth amser llawn a rhan-amser. Talgrynnwyd i'r pump agosaf. Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
(b) Ar 30 Mehefin 2004. Talgrynnwyd i'r 100 agosaf. Ffynhonnell: Amcangyfrifon hanner blwyddyn y Cofrestrydd Cyffredinol o'r boblogaeth.

**Tabl B**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y nifer yn gadael gofal | 270 |
| Ddim mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol | 34 |
| Nifer mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol | 236 |
| O'r rhieni: nifer yn ymgymryd ag addysg uwch (h.y. astudiaethau y tu hwnt i lefel A) (c) | 24 |
| Canran y rheiny mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol sy'n ymgymryd ag addysg uwch | 10% |

Ffynhonnell: cronfa ddata Plant sy'n Derbyn Gofal, Uned Ddata Llywodraeth Leol—Cymru
(c) Yn cynnwys darpariaeth amser llawn a rhan-amser.

**David Melding:** Pa ganran o blant sy'n derbyn gofal a enillodd bum gradd TGAU dda (A i C) ym mlwyddyn un ar ddeg yn 2005? (WAQ47405)

**Jane Davidson:** Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005, cafodd 16 allan o 397 neu 4 y cant o'r plant 16 oed a throsodd a oedd wedi gadael gofal bump neu ragor o bynciau TGAU ar lefel A* i C.

**David Melding:** Yn dilyn WAQ43849 a WAQ43850, o'r 680 o anafiadau chwaraeon a gafodd plant rhwng 11 ac 16 oed mewn sefydliadau addysgol a'r 155 o anafiadau a gafodd plant dan 11 oed yn 2003, sawl un a fu angen triniaeth feddygol barhaus? (WAQ47415)

**Jane Davidson:** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael.

Amcangyfrifwyd y wybodaeth a ddarparwyd mewn ateb i WAQ43849 a WAQ43850 gan ddefnyddio data o system wyliadwriaeth anafiadau Cymru gyfan yn hytrach nag union anafiadau'n digwydd. Nid yw'n bosibl defnyddio data AWISS i amcangyfrif lefelau triniaeth barhaus gan nad yw'r system yn olrhain unigolion drwy fwy nag un cyfnod (h.y. yr un gwreiddiol) o ofal.

**David Melding:** Pa ganran o blant a enillodd bum gradd TGAU dda (A i C) ym mlwyddyn un ar ddeg yn 2005? (WAQ47416)

**Jane Davidson:** Caiff gwybodaeth am ennill graddau TGAU ei chasglu yn nhermau canran o ddisgyblion *15 mlwydd oed* sy'n ennill graddau TGAU yn hytrach na'r canran *o ddisgyblion ym mlwyddyn 11* sy'n ennill graddau TGAU. Ar gyfer 2004-05, enillodd 52.2 y cant o ddisgyblion 15 mlwydd oed 5 neu ragor o bynciau TGAU neu gyfatebol gydag A* i C.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nifer yr ystafelloedd dosbarth symudol a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Ysgolion Uwchradd yn Nhor-faen? (WAQ47432)

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nifer yr ystafelloedd dosbarth symudol ychwanegol y bwriedir ar hyn o bryd y bydd eu hangen yn Ysgolion Uwchradd yn Nhor-faen? (WAQ47433)

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr ystafelloedd dosbarth symudol y bwriedir y bydd eu hangen yn Ysgol Uwchradd Abersychan, Pont-y-pŵl, Tor-faen? (WAQ47434)

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr ystafelloedd dosbarth symudol y bwriedir y bydd eu hangen yn Ysgol Uwchradd West Mon, Pont-y-pŵl, Tor-faen? (WAQ47435)

**Jane Davidson:** Gan fod y cwestiynau hyn yn ymwneud â'r un pwnc, fe'i hatebaf gyda'i gilydd. Deallaf gan AALl Tor-faen fod 51 ystafell ddosbarth symudol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn ysgolion uwchradd yr awdurdod. Nid yw'r AALl yn bwriadu ychwanegu unrhyw ystafelloedd dosbarth ychwanegol at ei ysgolion uwchradd. Y mae yn ddiweddar wedi gosod chwe ystafell ddosbarth dros dro o'r fath yn Abersychan a chwech arall yn West Monmouth. (Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn y cyfanswm o 51).

Mae ysgolion Abersychan a West Monmouth ar hyn o bryd yn cael eu hadnewyddu ac adeiladau ychwanegol yn cael eu codi yn barod i dderbyn disgyblion o ysgol gyfun Trefethin a fydd yn cau ar 31 Awst 2007. Mesur dros dro yw'r dosbarthiadau symudol i hwyluso'r prosiectau ailddatblygu hyn. Mae'r AALl yn bwriadu cael gwared â'r ystafelloedd dosbarth ym mis Gorffennaf 2007. Erbyn mis Medi 2007 mae'n debygol y bydd 32 o ystafelloedd dosbarth symudol ar ôl yn ysgolion uwchradd Tor-faen.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa ddadansoddiad cost a budd a wnaethpwyd ar gyflogi priswyr gwartheg gan y Cynulliad yn dilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar TB mewn gwartheg yn 2003? (WAQ47288)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Goddiweddwyd yr argymhelliad hwn yn adroddiad 'Digolledi ffermwyr am Dwbercwlosis Buchol yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 31 Gorffennaf 2003 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru gan gyhoeddiad dogfen ymgynghori ar gynigion i resymoli iawndal ar gyfer rheoli afiechydon hysbysadwy gan Lywodraeth Cynulliad Cymru/Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y cyd ar 27 Hydref 2003.

**Elin Jones:** Ar gyfer pob blwyddyn er 1999; a wnaiff y Gweinidog ddweud am faint ar gyfartaledd y mae'r cyfyngiad mewn grym ar fuches ar ôl achos o TB? (WAQ47289)

**Carwyn Jones:** Hyd (mewn dyddiau) mewn achosion TB heb eu cadarnhau ac wedi eu cadarnhau ym Mhrydain Fawr o 1999 i 2005 (cyfartaledd yr holl fuchesi a oedd yn parhau dan gyfyngiadau TB ym mhob blwyddyn):

| Blwyddyn | Achosion TB heb eu cadarnhau | Achosion TB wedi eu cadarnhau |
|---|---|---|
| 1999 | 116 | 208 |
| 2000 | 111 | 207 |
| 2001 | 154 | 279 |
| 2002 | 150 | 292 |
| 2003 | 145 | 282 |
| 2004 | 143 | 297 |
| 2005 | 144 | 279 |

Ffynhonnell: Yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol (2006).

Noder:
Mae'r ffigurau hyn ar gyfer achosion sydd wedi cau, h.y. buchesi lle mae'r cyfyngiadau wedi'u codi.

Caiff achos wedi ei gadarnhau ei ddiffinio fel achos TB lle mae o leiaf un anifail â namau gweledol a/neu lle ceir cadarnhad labordy o bresenoldeb m. bovis (h.y. meithriniad cadarnhaol) yn y samplau meinwe a gyflwynwyd.

Caiff achos heb ei gadarnhau ei ddiffinio fel achos TB lle nad oes *unrhyw un* o'r anifeiliaid sy'n adweithio â namau gweledol (h.y. ni ddynodwyd unrhyw namau) a meithriniad negyddol. Nid yw naill ai archwiliad post mortem na meithriniad labordy yn brofion 'safon aur' ac ni ddylid ystyried achosion heb eu cadarnhau fel rhai cadarnhaol ffug.

Caiff achosion wedi eu cadarnhau a heb eu cadarnhau eu gwahanu yn y tabl uchod oherwydd bod gwahaniaethau yn yr ymateb gweithredol yn gwneud un ffigwr sy'n cyfuno'r ddau yn anghynrychioliadol. Yn benodol, gellir codi gwaharddiadau oddi ar fuchesi lle ceir achos heb ei gadarnhau ar ôl lleiafswm o un prawf seibiant byr â chanlyniadau negyddol. Mae'n rhaid i fuchesi sy'n dioddef achos wedi ei gadarnhau gael lleiafswm o ddau brawf seibiant byr â chanlyniadau negyddol cyn y gellir codi'r cyfyngiadau. Mae'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu'r gofynion a nodir yn atodiad A cyfarwyddeb cyngor 64/432/EEC.

**Elin Jones:** Yn dilyn ei ymateb i WAQ46715, a'i ddatganiad diweddar am gyllid o £24 miliwn a £22 miliwn ar gyfer Tir Mynydd yn 2007 ac yn 2008 yn y drefn honno; a wnaiff y gweinidog ddweud faint o gyfraniad a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a faint gan FEOGA yr UE? (WAQ47290)

**Carwyn Jones:** Ar gyfer y cynllun datblygu gwledig olynol, bydd cydariannu adnoddau UE ar lefel echel, yn hytrach nag ar lefel mesur fel sy'n digwydd gyda'r cynllun presennol. Ar ben hynny, nid yw FEOGA yn parhau ar gyfer y cyfnod 2007 i 2013.

Bydd paratoi'r cynllun olynol, a oleuir gan yr ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori presennol sy'n dod i ben ar 21 Gorffennaf, yn cynnwys yr agweddau ariannol manwl ar gyfer pob un o'r pedair echel. Dim ond un o nifer o fesurau a gynigiwyd dan echel 2 yw Tir Mynydd.

**Leighton Andrews:** Pwy sy'n cyflwyno grantiau dan y cynllun Tir Gofal; beth yw'r broses ar gyfer gwneud ceisiadau am grant; pwy sy'n asesu'r ceisiadau grant; a phwy sy'n eu cymeradwyo'n derfynol? (WAQ47360)

**Carwyn Jones:** Caiff ffermydd ffermwyr sy'n gwneud cais i ymuno â Thir Gofal eu hasesu gan swyddog prosiect o Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyriaeth o'r nodweddion amgylcheddol presennol ar y fferm, ynghyd â chynigion ar gyfer creu rhai newydd, ac fe'u cymedrolir i ystyried maint y fferm. Caiff ceisiadau sy'n darparu manteision amgylcheddol sylweddol gynnig cytundeb. Caiff yr holl gynigion cytundeb eu gwirio gan uwch swyddog prosiect CCGC a chaiff canran eu gwirio ymhellach gan uwch reolwyr CCGC.

Bydd yr un swyddogion prosiect yn parhau i berfformio'r swyddogaeth hon ar ôl trosglwyddo gweinyddiaeth Tir Gofal o GCGC i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref, er y byddant bryd hynny'n ffurfio rhan o adran taliadau gwledig y Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i wella cyflwyno gwasanaethau ar y lefel leol? (WAQ47323)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Cyhoeddwyd 'Cyflawni'r Cysylltiadau', cynllun gweithredu pum mlynedd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus ym mis Mehefin 2005. Mae'r cynllun yn nodi'r gwelliannau yr ydym eisiau eu gweld yn y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflwyno. Mae'r cynllun yn ceisio trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus drwy eu gwneud yn fwy hygyrch, ymatebol, cydlynus ac effeithiol.

Yr ydym wedi cefnogi cyflwyno'r gwasanaethau hynny drwy ddarparu rhyw £3.5 biliwn (grant cynnal refeniw/trethi annomestig) o gymorth gan Lywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol yn 2006-07, cynnydd o 5.1 y cant ar 2005-06.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes Llywodraeth leol yn sir y Fflint? (WAQ47324)

**Sue Essex:** Yr oedd perfformiad Cyngor sir y Fflint yn erbyn ei dargedau cytundeb polisi yn ddigon cryf y llynedd i mi gytuno i dalu ei grant ysgogi perfformiad o £1,468,919.

Yr oeddwn yn arbennig o falch fod sir y Fflint wedi mynd y tu hwnt i'w dargedau yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu i bobl ifanc. Er enghraifft, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi codi, nifer y plant sy'n gadael addysg heb gymhwyster wedi lleihau, a nifer y plant yng ngofal yr awdurdod sy'n profi un neu ragor o newidiadau mewn ysgolion wedi lleihau hefyd.

Yr yr un modd yr oeddwn yn falch fod yn awdurdod wedi dangos perfformiad cryf yn erbyn targedau effeithiolrwydd ynni, gan leihau allyriannau carbon deuocsid o'i adeiladau a lleihau defnydd ynni yn ei stoc tai.

Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd perfformiad sir y Fflint yn erbyn targedau yn ystod 2005-06 yr un mor gryf.

**Karen Sinclair:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu'r arferion gorau mewn Llywodraeth leol? (WAQ47325)

**Sue Essex:** Yr ydym yn falch o gefnogi ar ariannu cynllun Rhagoriaeth Cymru, sy'n gwneud yn union hynny. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun, rhoddwyd clod i chwe awdurdod lleol a chlod uchel i dri awdurdod lleol, am waith i ddarparu dysgu gydol oes i bawb, i wella ansawdd yr amgylchedd lleol a hyrwyddo hygyrchedd gwasanaethau'r cyngor.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella democratiaeth leol? (WAQ47326)

**Sue Essex:** Me Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn bwriadu adeiladu ar yr ymgyrch ehangu cyfranogiad yr ymgymerwyd â hi cyn etholiadau lleol 2004. Bydd yr ymgyrch yn anelu at hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o rôl aelodau etholedig ac annog ystod ehangach o ymgeiswyr i ystyried sefyll etholiad a pharatoi darpar ymgeiswyr ar gyfer y gwaith. Caiff yr ymgyrch ei lansio ym mis Medi a bydd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol a deunydd hyrwyddo. Bydd yn arwain Wythnos Democratiaeth Leol sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc, fel sy'n arbennig o bwysig o ystyried y cynnig i ostwng yr oed ar gyfer bod yn ymgeisydd yn y Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol. Mae mesurau eraill yn y Mesur yn gosod dyletswydd ar swyddogion cofrestru i hyrwyddo cofrestru i'r eithaf ac ar awdurdodau lleol i gynnal adolygiad o orsafoedd pleidleisio. Bydd y grŵp cynllunio etholiadau, ar y cyd â rhanddeiliaid, yn cynnal seminar i ledaenu darpariaethau newydd y Mesur i ymgymerwyr etholiadol. Bydd y grŵp hefyd yn parhau i hwyluso trafodaeth ac annog arferion gorau yng Nghymru.

**Laura Anne Jones:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol mewn ardaloedd gwledig er mwyn gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus? (WAQ47327)

**Sue Essex:** Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol benderfynu sut mae cyflwyno ei wasanaethau mewn modd sy'n eu gwneud yn hygyrch i'r bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Gall awdurdodau lleol dderbyn cefnogaeth anffurfiol a chyngor gennym ni, CLlLC ac eraill.

Mae'r ffactor prinder poblogaeth sydd yn y fformiwla ariannu llywodraeth leol yn adlewyrchu'r problemau neilltuol o gyflwyno gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a oes unrhyw gynlluniau i newid cyflogau a buddiannau cynghorwyr lleol i'r dyfodol? (WAQ47328)

**Sue Essex:** Digwyddodd ymarferiad ymgynghori y llynedd ar adolygiad sylweddol o'r rheoliadau ar lwfansau cynghorwyr sir a bwrdeistrefi sirol. Yr oedd un o'r cynigion yr ymgynghorwyd arno yn ymwneud â sefydlu panel taliadau annibynnol i wneud argymhellion, yn flynyddol, i gynghorau sir a bwrdeistrefi sirol ar eu holl lwfansau yn ogystal â phensiynau. Caiff rheoliadau drafft eu rhyddhau ar gyfer ymgynghori cyn hir

**Jonathan Morgan:** Pa asesiad y mae’r Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wneud ar effaith cynyddu'r dreth gyngor ar deuluoedd ar incwm isel? (WAQ47329)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu £1.5 miliwn yn 2006-07 i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddynodi a helpu’r rheiny ar gyflogau isel sy’n gymwys am fudd-dal treth cyngor, ond nad ydynt ar hyn o bryd yn ei hawlio. Mae budd-dal treth cyngor ar gael i helpu i gwrdd â hyd at gostau llawn eu bil treth cyngor. Caiff hawl i fudd-dal ei gyfrifo yn unigol ac mae’n ystyried oedran, nifer y dibynyddion a’r swm sy’n daladwy. Mae gan y rheiny sy’n derbyn elfen gredyd warantedig y credyd pensiwn, cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm hawl i fudd-dal treth cyngor o 100 y cant.

Hefyd, ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae gan awdurdodau lleol hawl i ddewis creu eu gostyngiadau a’u heithriadau eu hunain. Gellir gweithredu gostyngiadau mewn achosion unigol, megis i leddfu’r baich treth ar berson anabl, yr henoed neu unrhyw un sy’n dioddef caledi dros dro.

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd yn nhrethi busnesau hunan-arlwyo yng Ngwynedd o’i gymharu â gweddill Cymru? (WAQ47330) [W]

**Sue Essex:** Defnyddiodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yr un fethodoleg ledled Cymru i bennu gwerth ardrethol eiddo hunanarlwyo pan wnaed yr ailbrisio diwethaf yn 2005.

Ers yr ailbrisio nôl yn 2000, mae gwerthoedd ardrethol cymharol busnesau wedi newid yn genedlaethol ac yn lleol. Mae rhai ardaloedd wedi cynyddu ar raddfa fwy na’r cyfartaledd cenedlaethol, tra bod eraill wedi cynyddu ar raddfa lai. Cafwyd cynnydd o 37 y cant yng ngwerth ardrethol eiddo hunanarlwyo yng Ngwynedd, o’i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 23 y cant.

Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod ardrethi wedi cynyddu gymaint â’r canran hwn – yn dilyn yr ailbrisio, gostyngwyd y lluosydd, ac mae llawer o eiddo mewn ardaloedd gwledig sydd â gwerth ardrethol o lai na £12,000 yn cael rhyddhad ardrethi.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Cyngor Sir Gaerfyrddin yn i gael gwared â'r opsiwn i gasglu rhent o ddrws i ddrws? (WAQ47332)

**Sue Essex:** Mater i Gyngor Sir Gaerfyrddin yw hwn. Yr oedd cynllun busnes y cyngor yn cynnwys ymrwymiad i adolygu ei ddulliau casglu rhent yn gyffredinol. Sefydlwyd grŵp prosiect i ystyried yr opsiynau. Wrth ystyried y gwasanaeth casglu o ddrws i ddrws ystyriodd y cyngor gost-effethiolrwydd yn erbyn opsiynau talu eraill, a materion iechyd a diogelwch.

Yr oedd y wybodaeth oddi wrth Gyngor Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn. Câi cost defnyddio casglwyr rhent ei dalu gan y tenantiaid i gyd ond dim ond tua 25 y cant ohonynt oedd yn defnyddio’r gwasanaeth hwn mewn gwirionedd. Yr oedd hefyd yn ddull talu a oedd yn lleihau mewn poblogrwydd ac yn mynd yn gynyddol annichonadwy o ganlyniad i hynny. O’i osod yn erbyn argaeledd dulliau eraill o dalu gwnaeth hyn gost-effeithiolrwydd yn brif ysgogydd i newid.

Ystyriwyd iechyd a diogelwch casglwyr rhent hefyd. Mae casglwyr rhent yn aml yn cario symiau mawr o arian, mae’r cyhoedd yn gwybod pwy ydynt, pa fath o wasanaeth y maent yn ei ddarparu a phryd, gan eu gwneud yn dargedau hawdd ar gyfer mygio neu waeth.

Ymgynghorwyd â’r tenantiaid a effeithid gan y newid hwn ac fe’u cynghorwyd am opsiynau talu eraill yn cynnwys debyd uniongyrchol, giro banc a thalu mewn swyddfeydd cyngor. Bu’r casglwyr rhent y cynorthwyo tenantiaid bregus a’r rhieni a oedd yn poeni am drosglwyddo i system newydd yn ystod y trawsnewid. Mae un casglwr yn cynnig cymorth o hyd tra bod y ddau arall wedi eu hadleoli o fewn y cyngor.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyfrifoldebau newydd Llywodraeth leol? (WAQ47333)

**Sue Essex:** Cyhoeddais ddatganiad ar y cyd â CLlLC yn 2003 yn tanlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru y caiff mentrau newydd a chyfrifoldebau newydd yn y dyfodol eu hariannu'n llawn cyn cael eu pasio ymlaen i lywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dal yn hollol ymroddedig i'r egwyddor hon.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen waith gyfredol i adolygu fformiwla cyllido Llywodraeth leol? (WAQ47334)

**Sue Essex:** Cytunwyd ar raglen waith gyfredol yr is-grŵp dosbarthu gan y fforwm ymgynghorol ar gyllid ym mis Ionawr 2005 ac mae'n cynnwys adolygiad o'r fformiwlâu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol personol i oedolion iau a chynnal a chadw ffyrdd. Yn ychwanegol at hynny gwnaethpwyd dadansoddiadau ar ystod o wasanaethau eraill sy'n defnyddio mesurau prinder poblogaeth, sydd wedi eu diweddaru gan ddefnyddio data cyfrifiad 2001. Disgwylir i'r fforwm ymgynghorol ar gyllid dderbyn adroddiad gan DSG ar newidiadau arfaethedig i'r fformiwla ar gyfer setliad 2007-08 yn ei gyfarfod nesaf ar 10 Gorffennaf 2006. Yn ychwanegol at hynny mae swyddogion yn dechrau ar adolygiad o'r defnydd o ddangosyddion amddifadedd a phrinder poblogaeth yn y fformiwla, gan roi sylw penodol i'r gwasanaeth addysg.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd am gynllun gweithredu cyflawni'r cysylltiadau, yng nghyd-destun llywodraeth leol yng Nghymru? (WAQ47335)

**Sue Essex:** Gallwn gadarnhau bod y camau gweithredu ar gyfer llywodraeth leol fel y'u hamlinellir yn 'Cyflawni'r Cysylltiadau' ar y ffordd i gyrraedd y targed. Mae llywodraeth leol yn dal i chwarae rôl hanfodol mewn ffurfio'r ffordd ymlaen ac mae wedi mabwysiadu agwedd weithgar tuag at 'Gyflawni'r Cysylltiadau', yn enwedig mewn perthynas â chydweithredu. Er enghraifft, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi sefydlu pedwar bwrdd rhanbarthol yn ddiweddar i yrru cydweithredu rhwng awdurdodau lleol; cafodd Will MacLean ei benodi fel cydlynydd rhanbarthol ar gyfer de-ddwyrain Cymru.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei thrafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru? (WAQ47336)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cwrdd ag arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rheolaidd i ystyried materion o ddiddordeb cyffredin. Yr wyf hefyd yn cyfarfod CLlLC a chynrychiolwyr eraill llywodraeth leol yng nghyfarfodydd Cyngor Partneriaeth Cymru. Ar 15 Mehefin, trafododd y cyngor partneriaeth bapurau ar y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru a chanlyniad yr adolygiad i ddiogelu plant sy'n agored i niwed. Ymhlith eitemau eraill ar yr agenda yr oedd papurau ar gynghorau cymuned a thref yng Nghymru, strategaeth e-Cymru, cyd-grynhoi band eang y sector cyhoeddus ac adroddiad blynyddol 2005-06 cynllun partneriaeth llywodraeth leol. Yr oeddwn hefyd yn falch o gyhoeddi gwobrau i 30 prosiect dan rownd gyntaf cronfa welliannau 'Creu'r Cysylltiadau'.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i hybu cyfranogaeth mewn democratiaeth leol yng Nghymru? (WAQ47337)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn bwriadu adfywio'r ymgyrch ehangu cyfranogiad yr ymgymerwyd â hi cyn etholiadau lleol 2004. Bydd yr ymgyrch yn anelu at hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o rôl aelodau etholedig, annog ymgeiswyr i ystyried sefyll etholiad, gan roi'r pwyslais ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a pharatoi darpar ymgeiswyr ar gyfer y gwaith. Caiff yr ymgyrch ei lansio ym mis Medi a bydd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol a deunydd hyrwyddo a hefyd gyfleoedd cysgodi a mentora. Bydd yn cysylltu ag Wythnos Ddemocratiaeth leol, sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc, sy'n arbennig o bwysig o ystyried y cynnig i ostwng yr oed ar gyfer bod yn ymgeisydd yn y Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol. Mae mesurau eraill yn y Mesur yn gosod dyletswydd ar swyddogion cofrestru i hyrwyddo cofrestru i'r eithaf ac i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o orsafoedd pleidleisio. Bydd y grŵp cynllunio etholiadau, ar y cyd â rhanddeiliaid, yn cynnal seminar i ledaenu darpariaethau newydd y Mesur i ymgymerwyr etholiadol. Bydd y grŵp hefyd yn parhau i hwyluso trafodaeth ac annog arferion gorau yng Nghymru yn arwain at etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2007 a thu hwnt.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jenny Randerson:** Beth oedd cyllideb cyffuriau'r GIG yng Nghymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ47305)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Dangosir y dyraniadau refeniw net ar gyfer cyffuriau gofal sylfaenol am y pum mlynedd diwethaf isod:

| Blwyddyn ariannol | Dyraniad cyffuriau gofal sylfaenol net £ miliwn |
|---|---|
| 2002-03 | 425.6 |
| 2003-04 | 457.6 |
| 2004-05 | 512.1 |
| 2005-06 | 535.6 |
| 2006-07 | 545.6 |

Caiff cyffuriau gofal eilaidd eu hariannu'n draddodiadol o'r dyraniad refeniw dewisol ar gyfer gwasanaethau ysbyty ac iechyd cymunedol. Fel y cyfryw, ni ellir dynodi dyraniadau refeniw cyffuriau gofal eilaidd ar wahân.

**Jenny Randerson:** Sawl ward a gaewyd mewn ysbytai'r GIG yng Nghymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ47306)

**Brian Gibbons:** Mae'r tair swyddfa ranbarthol yn fy adran wedi rhoi'r wybodaeth ganlynol am gau wardiau:

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **Nifer y Wardiau a Gaewyd** |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 10 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych* | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | 2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Penfro a Derwen | 1 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Powys | 8 |

Nid yw'r ffigurau yn cynnwys cau ysbytai.
*Yn achos Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych caewyd ward yn Ysbyty Abergele yn hydref 2004 ac fe'i disodlwyd gan ward AMU.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses ar gyfer trawsblannu mêr esgyrn yng Nghymru? (WAQ47339)

**Brian Gibbons:** Caiff trawsblannu mêr esgyrn neu fôn-gelloedd gwaedfagol ei gomisynu gan Gomisiwn Iechyd Cymru ac fe'i gwneir mewn tair ymddiriedolaeth ysbyty yng Nghymru, yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru.

Mae afiechydon sy'n rhwystro mêr esgyrn rhag gweithio'n iawn yn cynnwys lewcemia, lymffoma, anemia aplastig ac afiechydon eraill ar y system imiwnedd. I rai cleifion lle nad yw cemotherapi'n llwyddiannus, trosglwyddiad mêr esgyrn yw'r unig obaith o wella.

Gall rhai trawsblaniadau mêr esgyrn ddefnyddio celloedd iach y claf ei hun (trawsblaniad o'r un unigolyn). Mae'r rhan fwyaf yn drawsblaniadau alogenëig (rhoddwr). Mae tua 30 y cant o'r rhoddwyr yn dod o deulu'r claf ei hun. Mae'n rhaid i'r gweddill ddibynnu ar roddwr gwirfoddol sy'n cyd-weddu, a ddynodir drwy gofrestrfa mêr esgyrn. Mae hyn yn dibynnu ar fod y claf yn bodloni meini prawf derbyn penodol.

Mae'r gofrestrfa yn paratoi adroddiad sy'n rhestru rhoddwyr posibl, a'r ganolfan drawsblannu'n dethol y rheiny sy'n fwyaf tebygol o gyd-weddu. Bydd y gofrestrfa wedyn yn trefnu casglu samplau o'r rhoddwyr a ddewiswyd a'u hanfon i'r ganolfan ddosbarthu. Os deuir o hyd i roddwr addas, mae'r ganolfan drawblannu'n anfon cais i'r gofrestrfa i recriwtio'r rhoddwr a ddewiswyd, ac yn nodi'r ffynhonnell bôn-gelloedd y mae'n ei ffafrio: gwaed amgantol neu fêr esgyrn. Mae'n rhaid i'r rhoddwyr a ddewisir benderfynu a yw'n well ganddynt gasglu mêr esgyrn neu gasglu bôn-gelloedd amgantol drwy afferesis.

Cyn derbyn y trawsblaniad, mae'r claf yn derbyn dos uchel o gemotherapi a/neu radiotherapi i ddileu ei fêr esgyrn ei hun. Caiff mêr esgyrn neu fôn-gelloedd y rhoddwr eu chwistrellu i mewn i wythïen wedyn. Gan fod y rhain yn cymryd amser i dyfu, mae'r claf yn aros mewn amgylchedd di-haint er mwyn lleihau'r perygl o haint.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gael gwared ar nwyddau miniog (nodwyddau ayb) o ffynonellau meddygol yn y gymuned? (WAQ47344)

**Brian Gibbons:** Deallaf fod y trefniadau gwaredu ar gyfer gwastraff clinigol/nwyddau miniog o ffynonellau meddygol yn y gymuned o'r blaen yn fater a benderfynid ac a reolid gan awdurdodau iechyd ledled Cymru a bod nifer o'r trefniadau cytundebol hyn yn dal i fodoli. Deallaf hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo ar lefel Canolfan Gwasanaeth i Fusnesau gyda byrddau iechyd lleol i ddatblygu contract ar gyfer Cymru gyfan.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffyn profi sydd ar gael ar gyfer diabetes? (WAQ47346)

**Brian Gibbons:** Mae ystod o stribedi canfod sy'n profi lefelau glwcos yn y gwaed ar gael ar bresgripsiwn. Caiff y rhain eu rhestru yn rhan IXR y tariff cyffuriau.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg cleifion ar gyfer pobl â diabetes ac sy'n rhannol ddall? (WAQ47347)

**Brian Gibbons:** O fis Ebrill 2006 ymlaen, cyfrifoldebau byrddau iechyd lleol yw darparu rhaglenni addysg wedi'u strwythuro i gleifion eu poblogaethau. Byddai hynny'n cynnwys sicrhau bod cyrsiau ar gael yn gyfartal i gleifion sy'n rhannol ddall.

**Helen Mary Jones:** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o bellteroedd teithio cleifion i dderbyn triniaeth dialysis yr arennau, a pha gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella mynediad? (WAQ47350)

**Brian Gibbons:** Caiff materion trafnidiaeth cleifion eu hystyried fel rhan o'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau arennol a ddatblygir ar hyn o bryd. Mae'r fframwaith yn cynnig y dylai'r holl gleifion y mae angen hemodialysis tymor hir arnynt allu defnyddio cyfleusterau a system drafnidiaeth sy'n cadw amserau teithio i hanner awr neu lai ar gyfartaledd ar gyfer pob siwrne.

Datblygwyd y safon hon mewn ymateb i bryderon cleifion ac fe'i gwelir fel rhan ganolog o sefydlu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gleifion. Yr oedd yn seiliedig ar astudiaeth o fynediad daearyddol at wasanaethau arennol yng Nghymru a ddangosodd bod rhwng 13 a 22 y cant o boblogaeth Cymru'n byw fwy nag hanner awr ar y ffordd o uned arennol.

Mae'r twf mewn cleifion newydd y mae angen hemodialysis arnynt yn gofyn am ehangu cyfleusterau dialysis a datblygu unedau dibynnol, ac mae gwaith ar y gweill i ragfynegi'r twf yn nifer y cleifion mewn perthynas â lleoliadau daearyddol. Bydd hyn yn helpu i ddynodi lleoliadau addas a'r costau cysylltiedig ar gyfer y gwasanaethau newydd hynny.

**Helen Mary Jones:** Pa gymorth ariannol fydd y Gweinidog yn ei ryddhau er mwyn datblygu uned gyflawn ar gyfer trawsblannu arennau yn Ysbyty Prifysgol Cymru? (WAQ47351)

**Brian Gibbons:** Er y disgwylir cais am gronfeydd cyfalaf i gefnogi'r cynllun hwn, a bod posibilrwydd o fewn y rhaglen fuddsoddi gyfalafol i ddarparu'r gefnogaeth honno, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n disgwyl gweld cyflwyno achos busnes sydd â chefnogaeth addas. Pe byddai achos busnes o'r fath yn dod i law gyda chefnogaeth refeniw addas yna caiff ei ystyried yn briodol. Mater i Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i'w symud ymlaen gyda Chomisiwn Iechyd Cymru yw datblygu a chyflwyno achos busnes amlinellol gyda chefnogaeth addas am ganolfan drawsblannu un pwrpas.

**Helen Mary Jones:** Pa arweiniad sydd ar gael sy'n rhoi manylion am faint o welyau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau arennol ac arenneg yn ôl maint y boblogaeth, ac a wnaiff y Gweinidog nodi sut mae nifer y gwelyau ar gyfer gwasanaethau arennol ac arenneg yn y GIG yng Nghymru ar hyn o bryd yn cymharu â'r arweiniad hwnnw, a pha gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddarparu mwy? (WAQ47352)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau arennol, y bydd ei gyflwyno gam wrth gam yn gwella ansawdd gofal i gleifion. Mater i gomisiynwyr yn gweithio gyda'u partner ddarparwyr yw asesu capasiti a gofynion cleifion er mwyn bodloni gofynion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol. Bwriedir sefydlu dau rwydwaith arennol i gynorthwyo i gynllunio, trefnu a chyflwyno gofal arennol. Er mwyn taflu goleuni ar y broses gomisiynu, bydd grŵp ymgynghorol arennol Cymru gyfan sydd newydd ei sefydlu yn gwneud archwiliad llinell sylfaen o'r gwasanaethau arennol a ddarperir ar hyn o bryd yn erbyn safonau'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau brys yn Nwyrain De Cymru? (WAQ47354)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hollol ymroddedig i drawsnewid gwasanaethau a'r modd y cânt eu cyflwyno ac wedi nodi ein rhaglen yn 'Cynllun Oes'. Mae ein polisïau'n anelu at sicrhau gwasanaethau brys cyflym, diogel ac effeithiol ledled Cymru.

**Jonathan Morgan:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi'r ymchwiliad cyhoeddus i gyflwr presennol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru? (WAQ47357)

**Jonathan Morgan:** Ar ba ffurf fydd yr ymchwiliad cyhoeddus i gyflwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, a beth fydd ei gylch gorchwyl? (WAQ47358)

**Jonathan Morgan:** Pryd y cynhelir yr ymchwiliad cyhoeddus i'r problemau y mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd a phryd mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd yn dod i ben? (WAQ47359)

**Brian Gibbons:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi ymchwiliad cyhoeddus, am y rhesymau yr wyf eisoes wedi eu nodi yn y Sesiwn Llawn. Yr ydym yn dal i ystyried goblygiadau'r bleidlais ar 20 Mehefin ac ni allaf wneud unrhyw sylwadau pellach ar yr adeg hon.

**Laura Ann Jones:** Pa wasanaethau sydd ar gael i oedolion dros 18 oed sy'n ddifrifol anabl, yn feddyliol ac yn gorfforol, ym Mlaenau Gwent? (WAQ47363)

**Laura Ann Jones:** Pa wasanaethau gofal seibiant sydd ar gael i rieni oedolion dros 18 oed sy'n ddifrifol anabl, yn feddyliol ac yn gorfforol, ym Mlaenau Gwent? (WAQ47364)

**Brian Gibbons:** Mater i adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol a byrddau iechyd lleol yw asesu a mynd i'r afael ag anghenion gofal eu poblogaethau. Gellir cael manylion am y ddarpariaeth gofal lleol i'r grwpiau o bobl a nodwyd gennych gan adran gwasanaethau cymdeithasol Blaenau Gwent a Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent.

Yr ydym wedi cyhoeddi o'r blaen ein bod yn darparu £3 miliwn ychwanegol eleni ledled Cymru i gefnogi datblygu gwasanaethau lleol ymhellach, yn cynnwys gofal seibiant, i gynorthwyo gofalwyr pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Bydd y trefniadau manwl ar gael cyn hir. Bydd dyraniad fformiwla Blaenau Gwent tua £78,000.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y wybodaeth y mae ef wedi'i chasglu am gyfraddau galwadau am ambiwlans, y rhesymau dros y galwadau hyn, a sut mae'r patrwm yn newid gyda'r nos ac ar benwythnosau? (WAQ47365)

**Brian Gibbons:** Caiff gwybodaeth am gyfraddau galwadau am ambiwlans a'r rhesymau dros y galwadau hyn ei chasglu gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru at ddibenion cynllunio gweithredol. Ni chedwir y wybodaeth hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog nodi sawl claf sydd wedi derbyn llawdriniaethau dydd yn Ysbyty Llwyn Helyg, Ysbyty Hwlffordd ac Ysbyty Glangwili ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf y ceir ystadegau ar eu cyfer? (WAQ47381)

**Brian Gibbons:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl isod.

**Nifer y cleifion a dderbyniwyd ar gyfer llawdriniaeth ddydd (a)**

| | Ysbyty Llwyn Helyg | Ysbyty Glangwili (b) |
|---|---|---|
| 2003 | 2,525 | 4,830 |
| 2004 | 1,968 | 4,939 |
| 2005 | 1,814 | 4,596 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion yng Nghymru.

(a) Ceir peth dyblygu yn y tabl lle y derbyniwyd yr un claf i'r ddau ysbyty ac mewn gwahanol flynyddoedd.

(b) Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Glangwili.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa hyfforddiant a gwybodaeth addysgol sydd ar gael i weithwyr gofal cymdeithasol sydd heb gofrestru ac, yn benodol, bobl sy'n gweithio ym maes gofal iechyd meddwl a chyda phobl sydd ag anawsterau dysgu? (WAQ47396)

**Brian Gibbons:** Dylid rhoi mynediad at hyfforddiant sy'n eu cymhwyso i ymgymryd â'u gwaith i holl weithwyr cyflogedig gofal cymdeithasol. Mae gofyn i awdurdodau lleol lunio cynllun hyfforddi i fodloni anghenion dynodedig yr holl wasanaethau yn eu maes (wedi eu comisiynau a'u darparu) drwy bartneriaeth datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol. Yn y rhan fwyaf o achosion mae awdurdodau nawr yn gweithio gyda darparwyr eraill er mwyn sefydlu rhaglenni hyfforddi sydd ar gael i'r staff i gyd. Caiff y rhain eu darparu weithiau gan yr awdurdod lleol ac weithiau gan ddarparwyr hyfforddiant eraill megis colegau addysg bellach.

**Elin Jones:** Pa wybodaeth a gesglir gan y Gweinidog ynghylch y pwysau o ran llefydd mewn ysbytai sy'n golygu y trosglwyddir cleifion i ysbytai eraill? (WAQ47397)

**Brian Gibbons:** Fel rhan o'u prosesau rheoli mae gofyn i ymddiriedolaethau GIG gofnodi dilyniant o ddangosyddion sy'n dynodi pwysau o ran llefydd. Defnyddir y rhain i reoli unrhyw gynnydd mewn pwysau o ran llefydd ar y cyd â chynlluniau dwysáu Ymddiriedolaethau. Yn ychwanegol at hynny, mae arweinydd gofal brys y GIG ar gyfer de, canolbarth a gorllewin Cymru, yn cydlynu materion rheoli pwysau o ran llefydd drwy delegynadleddau dyddiol gydag ymddiriedolaethau'r GIG.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch yr amseroedd aros ar gyfer ymgynghoriadau orthodonteg cychwynnol a pha gynlluniau sydd ganddo ar y gweill ar gyfer lleihau'r amseroedd aros? (WAQ47398)

**Brian Gibbons:** Mae amserau aros ar gyfer ymgynghoriadau'n amrywio a dylai byrddau iechyd lleol, fel comisiynwyr lleol, ystyried trafod comisiynu gwasanaethau orthodonteg â byrddau iechyd lleol cyfagos, gan ystyried maint y rhestrau aros ar gyfer a) asesiad a b) triniaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y ddarpariaeth orthodonteg ar gyfer pob ardal BILl yn (i) y Canolbarth a'r Gorllewin, (ii) y Gogledd, (iii) y De Ddwyrain, ac a wnaiff ddatganiad am sut y mae'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd hynny yn cymharu â'r ddarpariaeth mewn rhannau eraill o'r DU? (WAQ47399)

**Brian Gibbons:** Ni chedwir gwybodaeth ar lefel y ddarpariaeth orthodonteg ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn ganolog. Mater i Fyrddau Iechyd Lleol unigol sy'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau o fewn eu hardaloedd penodol eu hunain yw darpariaeth a lefel holl wasanaethau deintyddol y GIG, gan gynnwys triniaeth orthodonteg. Mae rôl gomisiynu newydd y byrddau iechyd lleol yn caniatáu iddynt drefnu ac ehangu eu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y boblogaeth leol yn ogystal â rhoi'r opsiwn iddynt o gomisiynu gwasanaethau ar y cyd â byrddau iechyd lleol cyfagos er mwyn cryfhau'r gwasanaeth ar sail ehangach.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y caiff gwerthoedd contract orthodonteg eu cynyddu er mwyn cynnal lefel y gweithgarwch a fu dan y contract gwasanaethau deintyddol cyffredinol blaenorol yn ystod chwarter cyntaf 2006? (WAQ47400)

**Brian Gibbons:** Fel gyda gwerthoedd contract pob gwasanaeth deintyddol cyffredinol a gwasanaeth deintyddol personol dan ddiwygiadau deintyddol y GIG, defnyddiwyd enillion hanesyddol practis a lefel y gweithgarwch yn ystod y cyfnod cyfeirio fel sail i gyfrifo gwerth contract ymgymerwr orthodontig a'r ymrwymiad i'r GIG. Os yw practisys wedi tyfu'n sylweddol ers y cyfnod cyfeiriol a bod bwrdd iechyd lleol yn anabl neu'n anfodlon ariannu gwerth ychwanegol y contract gan ddefnyddio arian twf neu o

bractisys nad ydynt yn derbyn y contract newydd, bydd angen i'r bwrdd iechyd lleol wneud penderfyniad a ddylai leihau, cynnal neu gynyddu lefel y gweithgarwch orthodontig yn unol â'r gallu i'w fforddio ac anghenion y boblogaeth leol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa flaenoriaeth a roddir i fân broblemau cosmetig a chleifion hyn o fewn contract deintyddol newydd y GIG? (WAQ47401)

**Brian Gibbons:** Dylai triniaethau a gynigir dan y GIG fod yn angenrheidiol i wella a chynnal iechyd da y genau a dylent bara am gyfnod hir. Ni ddylid darparu triniaethau a roddir naill ai am resymau cosmetig neu resymau ar wahân i wella iechyd y genau fel arfer ar y GIG. Er hynny, mae gan bob claf anghenion gwahanol a bydd deintyddion yn gallu ymarfer eu barn glinigol ynglŷn ag a ddylid gwneud y driniaeth dan y GIG ai peidio yn hytrach na chael eu cyfyngu gan set o reolau.

Seilir cynlluniau triniaeth ac ysbeidiau adalw ar anghenion clinigol y claf er mwyn cynnal iechyd geneuol da ac ni roddir unrhyw flaenoriaeth i unrhyw grŵp oedran na chategori arall o gleifion.

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu llunio canllawiau ar gyfer lefel y ddarpariaeth orthodonteg sy'n briodol ar gyfer poblogaeth, a pha ystyriaethau y mae wedi'u rhoi i waith a wnaethpwyd yn y maes hwn yn yr Adran Iechyd yn Iwerddon? (WAQ47402)

**Brian Gibbons:** Mater i fyrddau iechyd lleol unigol sy'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau o fewn eu hardaloedd eu hunain yw darpariaeth a lefel gwasanaethau orthodontig

Mae fy swyddogion yn sylwedyddion ar grŵp adolygu contractau deintyddol yr Adran Iechyd, sydd hefyd ag uwch-gynrychiolwyr o'r proffesiwn deintyddol a sefydliadau eraill perthnasol arno. Drwy hynny, gallwn rannu ein sylwadau ar unrhyw faterion o'r gwaith y maent hwy'n ymgymryd ag ef yn dilyn cyflwyno'r contract newydd.

Mae'r gwaith a wneir gan adran iechyd Gweriniaeth Iwerddon ym maes triniaeth orthodontig yn unol â'r hyn sydd wedi eu nodi yn Rheoliadau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol Cymru 2006, lle y dywedir, pe byddai cyllid ychwanegol yn dod ar gael y gellid ehangu'r mynegai triniaeth orthodontig i gynnwys cleifion na fyddai fel arfer yn derbyn triniaeth.

**David Melding:** Pa amcangyfrif y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o nifer y bobl sy'n gadael gofal a ddaeth yn ddigartref o fewn blwyddyn i adael gofal? (WAQ47406)

**Brian Gibbons:** Nid ydym yn cadw gwybodaeth ar nifer y bobl sy'n gadael gofal a ddaeth yn ddigartref o fewn blwyddyn i adael gofal. Er hynny, mae'r awdurdodau lleol yn adrodd bod 88 y cant o bobl 19 oed mewn llety addas am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005.

**David Melding:** Pa amcangyfrif y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o nifer y plant 12 -18 oed sy'n derbyn gofal sydd wedi dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol? (WAQ47407)

**Brian Gibbons:** Nid ydym yn casglu'r ffigurau y gofynnwyd amdanynt. Mae gwybodaeth reoli a gasglwyd drwy raglen Cymunedau yn Gyntaf yn awgrymu bod 339 (6 y cant) o blant 10 i 17 oed a oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 wedi eu dyfarnu'n euog neu wedi cael rhybudd terfynol neu gerydd yn ystod y flwyddyn am drosedd a wnaethpwyd tra'r oeddent yn derbyn gofal.

**David Melding:** Sawl person yng Nghymru a fu farw'n ddamweiniol yn 2004, ac a wnaiff y Gweinidog ddadgyfuno'r data yn ôl dynion a merched i'r grwpiau oed canlynol: 0-14; 15-24; 25-34; 35-44; 45-64; 65-74 a 75 a hyn? (WAQ47408)

**Brian Gibbons:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl canlynol.

**Marwolaethau damweiniol yn 2004 (a)**

| Grŵp oedran | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 0-14 | 14 | 4 | 18 |
| 15-24 | 52 | 9 | 61 |
| 25-34 | 38 | 9 | 47 |
| 35-44 | 48 | 16 | 64 |
| 45-64 | 74 | 34 | 108 |
| 65-74 | 24 | 18 | 42 |
| 75 a throsodd | 142 | 226 | 368 |
| Pob oedran | 392 | 316 | 708 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
(a) Digwyddiadau. ICD 10 codau V01-X59.

**David Melding:** Sawl plentyn sy'n derbyn gofal a dderbyniodd fwy na dau leoliad gofal yn 2005? (WAQ47409)

**Brian Gibbons:** Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol a gafodd dri neu ragor o leoliadau yn ystod y flwyddyn, 31 Mawrth 2005 oedd 620 (14 y cant).

**David Melding:** Faint o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn derbyn y gofal hwnnw y tu allan i'w sir? (WAQ47410)

**Brian Gibbons:** Ar 31 Mawrth 2005 yr oedd 1,000 o blant a oedd yn derbyn gofal mewn: lleoliadau maeth y tu allan i'w sir, unedau diogel y tu allan i ffin yr awdurdod lleol, neu gartrefu a hosteli y tu allan i ffin yr awdurdod lleol.

**David Melding:** Sawl person a gafodd ei gadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn 2004-05? (WAQ47411)

**Brian Gibbons:** Gellir cael hyd i wybodaeth ar nifer y bobl a dderbyniwyd i mewn dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar wefan StatsCymru: http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx

**David Melding:** Sawl triniaeth therapi electro-ddirdynnol (ECT) a gynhaliwyd yn 2005/06, ac a wnaiff y Gweinidog ddadgyfuno'r data yn ôl dynion a merched i'r grwpiau oed canlynol: 0-14; 15-24; 25-34; 35-44; 45-64; 65-74 a 75 a hyn? (WAQ47412)

**Brian Gibbons:** Ni chedwir gwybodaeth ar gyfanswm nifer y triniaethau therapi electro-ddirdynnol yn ganolog. Er hynny, mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y cyfnodau mewn ysbyty pryd y digwyddodd o leiaf un driniaeth ECT.

Nifer y cyfnodau mewn ysbyty yn ystod 2005-06 pryd y digwyddodd o leiaf un driniaeth ECT:

| Grŵp oedran | Benywod | Gwrywod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 0-34 * | 4 | 6 | 10 |
| 35-44 | 14 | 5 | 19 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 45-54 | 5 | 5 | 10 |
| 55-64 | 21 | 3 | 24 |
| 65-74 | 21 | 7 | 28 |
| 75 a throsodd | 13 | 3 | 16 |
| Pob oedran | 78 | 29 | 107 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion yng Nghymru.

Mae'n bosibl fod y data'n anghyflawn gan y gellir derbyn rhagor o gyflwyniadau.
*Mae'r categorïau oedran wedi eu cyfuno i osgoi datgelu gwybodaeth am gleifion unigol.

**David Melding:** Faint o blant sy'n derbyn gofal ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru sy'n derbyn y gofal hwnnw y tu allan i Gymru? (WAQ47413)

**Brian Gibbons:** Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon. Er hynny, dangosodd archwiliad gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o wasanaethau awdurdodau lleol i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal fod 281 o blant a oedd yn derbyn gofal wedi eu lleoli y tu allan i Gymru ar 30 Mehefin 2005.

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddadgyfuno'r data ar farwolaethau drwy hunanladdiad yn Ystadegau Iechyd Cymru ar gyfer 2004, a darparu'r canlynol yn ôl nifer a'r gyfradd yn ôl pob 100,000:
a) hunanladdiad ymysg dynion yn y grwpiau oed 0-14, 15-24 a 25-34
b) hunanladdiad ymysg merched yn y grwpiau oed 0-14, 15-24 a 25-34? (WAQ47414)

**Brian Gibbons:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl canlynol.
**Marwolaethau drwy hunanladdiad 2004 (a)**

| | **Gwryw** | | **Benyw** | |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp oedran** | **Nifer** | **Cyfradd (b)** | **Nifer** | **Cyfradd (b)** |
| 0-14 | 0 | 0.0 | 1 | 0.4 |
| 15-24 | 23 | 11.8 | 4 | 2.1 |
| 25-34 | 39 | 23.3 | 11 | 6.3 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

(a) Digwyddiadau. ICD 10 codau X60-X84, Y10-Y34 gyda rheithfarn 'agored'.
(b) Fesul 100,000 o boblogaeth yn y grŵp oedran perthnasol.

**David Davies:** Pa bwerau sydd gan y Gweinidog i atal cwmni preifat rhag defnyddio adeiladau preifat i drin cleifion â salwch meddwl sydd wedi cyflawni troseddau treisgar yn y gorffennol? (WAQ47422)

**David Davies:** Pa feini prawf y mae'n rhaid i gwmni preifat eu bodloni cyn y gall drin cleifion gyda salwch meddwl sydd wedi cyflawni troseddau treisgar yn y gorffennol? (WAQ47423)

**David Davies:** Pa archwiliadau sydd ar waith i sicrhau bod cwmnïau preifat yn parhau i gydymffurfio â'r meini prawf sy'n caniatáu iddynt drin cleifion gyda salwch meddwl sydd wedi cyflawni troseddau treisgar yn y gorffennol mewn adeiladau preifat? (WAQ47424)

**Brian Gibbons:** Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y rheolydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru ym mis Ebrill 2002 drwy bwerau Deddf Safonau Gofal 2000. Cafodd y pwerau hynny mewn perthynas â gofal iechyd preifat a gwirfoddol eu hestyn i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ym mis Ebrill 2005 oddi wrth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

Mae'r safonau sy'n gofyn am gofrestru dan y Ddeddf Safonau Gofal yn cynnwys sefydliadau iechyd meddwl lle y rhoddir triniaeth a/neu ofal nyrsio i bobl sy'n agored i gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n penderfynu ar geisiadau ar gofrestru yn erbyn y ddeddfwriaeth eilaidd a wnaethpwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru – Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Gall yr arolygiaeth wneud unrhyw ymholiad a gofyn i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth bellach y mae'n rhesymol yn gofyn amdanynt at ddibenion ystyried y cais.

Wrth asesu ffitrwydd darparwyr, rheolwyr a staff mae'r arolygiaeth hefyd yn ystyried gofynion y rheoliadau a'r safonau, sy'n ymorol am gymwysterau a phrofiad. Yn yr un modd, ni chaiff sefydliad ei gofrestru oni bai ei fod mewn lleoliad ac o gynllun a phatrwm sy'n addas at bwrpas y sefydliad.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r arolygiaeth arolygu sefydliadau gofal iechyd annibynnol ar unrhyw adeg. Bydd yr arolygiaeth yn gwneud penderfyniadau gweithredol ynglŷn â pha mor aml y dylid ymweld â phob sefydliad, gan ystyried y sefyllfa yno: nid yw hynny wedi ei ragnodi yn y rheoliadau. Fel lleiafswm, er hynny, mae'r Gweinidog wedi cytuno y bydd yr arolygiaeth yn ymgymryd ag o leiaf ddau ymweliad ym mhob cyfnod o 12 mis.

Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn darparu dau fath eang o gamau gorfodi lle nad yw darparwr yn cyflawni ei rwymedigaethau:

- Gall y Cynulliad fynd am erlyniad troseddol, neu rybudd ffurfiol ysgrifenedig, lle y mae'n ystyried bod trosedd statudol, torri amodau neu drosedd yn erbyn y rheoliadau wedi digwydd; a
- Gall y Cynulliad gymryd camau sifil a all gynnwys gwrthod cofrestru; gosod, amrywio neu ddileu amodau; neu yn y pen draw ganslo cofrestriad, lle y ceir gweithdrefnau brys ac arferol fel ei gilydd.

**Jeff Cuthbert:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau nad yw NAP1/027, un o rywogaethau'r bacteriwm Clostridium difficile, yn bodoli yn ysbytai Cymru? (WAQ47428)

**Jeff Cuthbert:** A yw NAP1/027, un o rywogaethau'r bacteriwm Clostridium difficile, wedi ei ganfod mewn ysbytai yng Nghymru? (WAQ47427)

**Jeff Cuthbert:** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i fynd i'r afael â thaeniad y bacteriwm Clostridium difficile yn ysbytai Cymru? (WAQ47426)

**Jeff Cuthbert:** Sawl heintiad a ddaliwyd mewn ysbyty yng Nghymru a achoswyd yn rhannol, neu'n llwyr, gan Clostridium difficile yn y pum mlynedd diwethaf? (WAQ47425)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cymryd camau sylweddol i leihau effaith yr holl heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yng Nghymru. Yn 2004, bu inni lansio 'Heinitiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd—Strategaeth ar gyfer Ysbytai yng Nghymru' a oedd yn anelu at helpu ymddiriedolaethau'r GIG i leihau baich heintiau o'r fath yng Nghymru. Rhan sylweddol o'r strategaeth oedd cyflwyno gwyliadwriaeth orfodol, ym mis Ionawr 2005, i fonitro nifer yr achosion o haint clostridium difficile yn holl ymddiriedolaethau GIG Cymru. Oherwydd natur yr haint, dim ond ar gyfer cleifion mewnol mewn ysbytai sydd dros 65 oed sydd â neu sy'n datblygu dolur rhydd yn ystod eu harhosiad y cedwir gwyliadwriaeth ar c.difficile. Caiff data'r wyliadwriaeth ei drosglwyddo i raglen Cymru ar heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, o ble y caiff adroddiadau chwe-misol eu llunio. Wrth ymgymryd â'r wyliadwriaeth hon, mae ymddiriedolaethau'r GIG a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn gallu monitro effeithiolrwydd y strategaethau rheoli haint a thynnu sylw at feysydd posibl ar gyfer ymchwilio a gweithredu. Gan mai dim ond er mis Ionawr 2005 y mae'r cynllun gwyliadwriaeth wedi bod mewn grym,

nid oes gennym unrhyw ddata ar gael ar nifer yr heintiadau c.difficile am y pum mlynedd diwethaf. Er hynny, yn y cyfnod o 01.01.05 hyd 31.12.05 y gyfradd gyffredinol i Gymru ar gyfer heintiadau c.difficile oedd 14.64 fesul 1,000 a dderbyniwyd i mewn. Mae'r wyliadwriaeth hefyd wedi dangos bod haint c.difficile NAP1/027 wedi ei ganfod yng Nghymru ar lefelau isel iawn: nid oedd yr heintiadau hynny a ddigwyddodd yn gysylltiedig ag afiechyd difrifol nac yn gychwyn ar y clefyd. Bydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn parhau i fonitro hyn yn glos.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o'r holl heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a gweithdrefnau rheoli heintiau ymhlith staff yn y GIG. I gefnogi'r amcan hwn, lansiodd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol becyn e-ddysgu yn ddiweddar i roi hyfforddiant mewn rheoli haint i holl staff y GIG sydd â chysylltiad uniongyrchol â chleifion. Yr ydym hefyd yn gweithio tuag at gyflwyno hyrwyddwr heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ym mhob maes ymarfer yn y GIG. Bydd yr unigolion hyn yn cynorthwyo staff i helpu i wella safonau glanweithdra, hylendid a rheolaeth dros heintiau er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r grantiau cyfalaf a gyfeiriwyd tuag at sefydlu practisys deintyddol GIG, ynghyd â thargedau'r Uned Gweithgarwch Deintyddol a oedd ynghlwm wrth y grantiau? (WAQ47431)

**Brian Gibbons:** Yr unig gynllun grant sydd ar gael i sefydlu practisys deintyddol newydd yw menter ddeintyddol Cymru. Er hynny, nid gynllun grant cyfalaf yw hwn ond mae'n dyfarnu refeniw achlysurol yn ddibynnol ar gynyddu nifer y cleifion GIG a gofrestrir – yn nodweddiadol o 1,300. Ni cheir ychwaith unrhyw unedau gweithgarwch deintyddol yn gysylltiedig â menter ddeintyddol Cymru. Unedau gweithgarwch deintyddol yw arian cyfredol y contract newydd sy'n cyfeirio at driniaethau a wnaethpwyd yn hytrach na chleifion wedi'u cofrestru.

Yn dilyn cyflwyno'r contract deintyddol newydd ar 1 Ebrill 2006 mae'r cysyniad o gofrestru cleifion fwy neu lai wedi diflannu. Bydd y gofyn i gynyddu rhestrau cleifion o 1300 i ddenu'r grant yn mynd yn gynyddol anos i'w fesur gan fyrddau iechyd lleol a chan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG fel ei gilydd. Yr ydym yn derbyn nad yw menter ddeintyddol Cymru'n cyd-weddu'n dda â'r trefniadau cytundebol newydd mewn perthynas â'r grant sylfaenol ac o ganlyniad yr ydym ar hyn o bryd yn ymgymryd ag adolygiad o'r cynllun.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amser y mae'n ei gymryd i Banel IPC Comisiwn Iechyd Cymru ddod i benderfyniad am driniaeth cleifion unigol? (WAQ47438)

**Brian Gibbons:** Caiff y panel comisiynu ar gyfer cleifion unigol ei ffurfio i wneud penderfyniadau ar geisiadau am gyllid gan glinigwyr ar gyfer atgyfeiriadau dewisol nad ydynt yn rhai brys i ymddiriedolaethau GIG am wasanaethau nad ydynt yn cael eu cwmpasu fel arfer gan gytundeb lefel gwasanaeth neu gytundeb tymor hir, a lle nad oes unrhyw bolisi comisiynu CIC eisoes wedi ei sefydlu.

Ffurfiwyd yr amserlen sy'n dilyn er mwyn rhoi digon o amser i gomisiynwyr arbenigol a chynrychiolwyr meddygol ystyried ac ymchwilio i bob achos yn drylwyr. Mae'r amserlen hefyd yn caniatáu ar gyfer rhoi prosesau gweinyddu teg, archwiliadwy a phriodol ar waith:

- Atgyfeiriadau sy'n gofyn am benderfyniadau cyflym oherwydd brys clinigol – gellir eu gweld y tu allan i'r panel. Cyhyd ag y derbynnir yr holl wybodaeth briodol, gall atgyfeiriwr ddisgwyl ateb o fewn cyfnod amser y cytunwyd arno gan y ddwy ochr.
- Atgyfeiriadau bob dydd nad ydynt yn rhai brys – yn dibynnu ar ba mor amserol y'u derbynnir, pa mor gyflawn yw'r wybodaeth atgyfeirio a swm yr atgyfeiriadau a dderbynnir, caiff atgyfeiriadau bob dydd nad ydynt yn rhai brys fel arfer eu cyflwyno i'r panel comisiynu ar gyfer cleifion unigol o fewn 27 diwrnod gwaith fan bellaf. Anfonir ymateb at y clinigwr sy'n atgyfeirio cyn gynted â phosibl, ond fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith yn dilyn panel.

Ceir achlysuron pan na fydd y ffurflen gais wedi ei chwblhau a bod gofyn am ragor o wybodaeth; bydd cydlynydd y panel comisiynu ar gyfer cleifion unigol yn cysylltu â'r sefydliad sy'n atgyfeirio gan roi gwybod am yr angen am rhagor o wybodaeth ac yn dynodi'r amser y mae gofyn amdano i fynd ag achos o flaen panel. Caiff y sefydliad sy'n atgyfeirio wybod dyddiad y panel nesaf.

Rhoddir gwybod i'r sefydliad sy'n atgyfeirio na ellir gwneud unrhyw benderfyniad heb gael y wybodaeth ychwanegol.

O ran adolygu'r penderfyniad, gellir gwneud cais am adolygiad mewnol o'r penderfyniad a wnaethpwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru lle y ceir gwybodaeth ychwanegol i'w hystyried, neu lle yr ystyrir bod amgylchiadau eithriadol hollbwysig a allai effeithio ar y penderfyniad. Bydd y graddfeydd amser ar gyfer adolygiad yn debyg i'r rheiny a nodir uchod ar gyfer y penderfyniad gwreiddiol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi trwyddedu ar waith ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth? (WAQ47367)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar gyflwyno'r darpariaethau a gynhwysir yn Neddf Tai 2004 yn cynnwys y rheiny sy'n ymwneud â thrwyddedu tai mewn amlfeddiannaeth yng Nghymru.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bwriad o ran trwyddedu tai a rennir mewn ardaloedd i fyfyrwyr? (WAQ47368)

**Edwina Hart:** Byddai tai a rennir mewn ardaloedd i fyfyrwyr sy'n eiddo i landlordiaid preifat naill ai'n disgyn i gategori trwyddedu gorfodol pan fydd tri neu ragor o loriau ynddynt a phump neu fwy o breswylwyr neu drwyddedu ychwanegol sydd yn ôl doethineb yr awdurdod lleol.

Caiff llety myfyrwyr a rennir sy'n eiddo i ddarparwyr preifat neu a reolir ganddynt ei eithrio o drwyddedu tai mewn amlfeddiannaeth cyhyd â'u bod yn llofnodwyr i rwydwaith achredu cod ymarfer cenedlaethol y DG.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau diweddaraf ar gyfer sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i bobl yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ47369)

**Edwina Hart:** Mae fy adroddiad blynyddol ar gyfiawnder cymdeithasol 2006, a nodwyd yn y Sesiwn Llawn ar 20 Mehefin, yn nodi sut yr eir i'r afael â'r rhwystrau cymdeithasol, addysgol ac economaidd ehangach sy'n cyfrannu at eithrio cymdeithasol drwy holl rannau Cymru, yn cynnwys canolbarth a gorllewin Cymru.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog esbonio sut mae ei pholisïau o fudd i adfywio cymunedau yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ47370)

**Edwina Hart:** Mae fy mholisïau yn helpu i adfywio cymunedau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru drwy gyfuno darparu cyllid â datblygu cyfranogiad ac ymrwymiad y sector cymunedol a gwirfoddol.

Ategir cyllid o £9.8 miliwn i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer adeiladu potensial a phrosiectau eraill gan 17 o brosiectau a ariennir dan y rhaglen gyfleusterau a gweithgareddau cymunedol gwerth £1,121,633.

Mae grwpiau cymunedol a gwirfoddol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru wedi cael mynediad at gyllid ar gyfer 88 o brosiectau adfywio ychwanegol ar y rhaglen gyfleusterau a gweithgareddau cymunedol gwerth £5,461,129 a saith prosiect a ariennir dan y gronfa adfywio gymunedol a gwirfoddol leol gwerth £1,725,027.

Yr wyf hefyd wedi darparu cyllid drwy'r awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol drwy'r gronfa adfywio ffisegol. Yr wyf wedi cymeradwyo cyllid o £4,507,031 ar gyfer cynlluniau'r gronfa adfywio ffisegol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru i fynd i'r afael â diffeithwch a phydredd amlwg ac i gefnogi adfywio cyfleusterau cymunedol a chanol trefi.

Yn ychwanegol at hynny, mae awdurdodau lleol wedi gallu manteisio ar £4,630 miliwn ar gyfer cynlluniau adnewyddu tai yn 2005-06. Mae'r holl bolisïau a rhaglenni hyn yn helpu i greu hyder a chyfleoedd mewn cymunedau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei thrafodaeth ddiweddaraf gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am bolisïau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru? (WAQ47371)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi cwmpasu nifer o faterion gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn enwedig, cyfraniadau byrddau iechyd lleol tuag at ariannu gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau ac ymwneud meddygon teulu a fferyllfeydd wrth ddarparu gwasanaethau. Yn dilyn y drafodaeth adolygu polisi yn y Sesiwn Llawn ar 14 Mehefin, yr wyf wedi ysgrifennu at Dr Gibbons am faterion sy'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau arbenigol.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith prisiau ynni ar dlodi tanwydd yng Nghymru? (WAQ47372)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ47107.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau ar ôl adsefydlu i'r rhai a fu'n gaeth i gyffuriau yng Nghymru? (WAQ47373)

**Edwina Hart:** Partneriaethau diogelwch cymunedol sy'n gyfrifol am gomisiynu pob agwedd ar wasanaethau triniaeth ar sail asesiad cadarn o anghenion lleol. Mae hynny'n cynnwys gwasanaethau ar ôl adsefydlu i'r rhai a fu'n gaeth i gyffuriau.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiannau ym maes cyfiawnder cymdeithasol yn Sir y Fflint? (WAQ47374)

**Edwina Hart:** Mae sir y Fflint yn elwa o nifer o gynlluniau sy'n cyflwyno ein hagenda cyfiawnder cymdeithasol. Sefydlwyd ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i godi dyheadau pobl leol. Mae partneriaethau diogelwch cymunedol yn effeithio ar droseddu ac anhrefn. Mae Asiantaeth Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn ac oedrannus i aros yn eu cartrefi.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dai cymdeithasol ar gyfer pobl hyn? (WAQ47375)

**Edwina Hart:** Mae’r Cynulliad yn ymroddedig i hyrwyddo cyflenwad digonol o dai a all fodloni anghenion amrywiol a chyfnewidiol pobl hŷn a sicrhau eu bod yn parhau’n annibynnol cyhyd ag sy’n bosibl. Mae tai gofal ychwanegol yn un ffordd o gyflawni hynny. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu cyfanswm o £33 miliwn dros ddwy flwyddyn ariannol yn dechrau yn 2006-07 i ariannu wyth cynllun gofal ychwanegol ledled Cymru. Mae hyn yn adeiladu ar raglen bresennol Llywodraeth y Cynulliad o wyth cynllun gofal ychwanegol, pump ohonynt wedi eu cwblhau eisoes.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drwyddedu a rheoli llety myfyrwyr yng ngoleuni'r Ddeddf Tai Amlfeddiannaeth? (WAQ47376)

**Edwina Hart:** Caiff llety myfyrwyr sy’n perthyn i sefydliadau addysg uwch eu heithrio o drwyddedu tai amlfeddiannaeth ar yr amod eu bod wedi llofnodi un o’r ddau god ymarfer cenedlaethol. Mae sefydliadau addysg uwch Cymru i gyd yn llofnodwyr i god ymarfer rhwydwaith achredu’r DU.

Caiff llety myfyrwyr sy’n eiddo i ddarparwyr masnachol neu a reolir ganddynt eu heithrio o drwyddedu tai amlfeddiannaeth cyhyd â’u bod yn llofnodwyr i god ymarfer rhwydwaith achredu’r DU.

Byddai tai myfyrwyr a rennir sy’n eiddo i landlordiaid preifat naill ai’n disgyn i’r categori trwyddedu gorfodol lle y mae iddynt dri neu fwy o loriau a phump neu fwy o breswylwyr neu drwyddedu ychwanegol, sydd yn ôl doethineb yr awdurdod lleol.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda Gweinidog dros Gymunedau a Llywodraeth Leol y DU ynghylch cynlluniau ar gyfer tai cymdeithasol fforddiadwy? (WAQ47377)

**Edwina Hart:** Fel y byddwch yn gwybod, dim ond yn ddiweddar y crëwyd y portffolio gweinidogaethol newydd hwn ar lefel y DU ac hyd yma nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Ruth Kelly AS. Er hynny, caf werthusiad o ddatblygiadau yn Lloegr a mannau eraill yn rheolaidd.

**John Griffiths:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi a hyrwyddo menter gymdeithasol yng Nghymru? (WAQ47378)

**Edwina Hart:** Fis Mehefin diwethaf lansiais strategaeth menter gymdeithasol gyntaf Cymru, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â’r cyd-weithgor mentrau cymdeithasol. Daw aelodau’r cyd-weithgor o ystod o sefydliadau sy’n cynrychioli’r sector. Mae’n darparu llais clir iawn i fentrau cymdeithasol fynegi eu barn. Mae’r strategaeth yn amlinellu’r fframwaith y gall y sector mentrau cymdeithasol ddatblygu a thyfu o’i fewn. Mae hefyd yn dynodi 32 o gamau gweithredu penodol y mae eu hangen i gynorthwyo datblygiad y sector yng Nghymru.

Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar bob cam gweithredu yn enwedig cyllid, caffael, datblygu asedau a mentora, a ddynodwyd fel blaenoriaethau gan y cyd-weithgor.

**Ann Jones:** Pa gamau pellach y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried eu cymryd i fynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anghyfreithlon sy’n gysylltiedig â beiciau modur bach a beiciau modur heb drwydded. (WAQ47379) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad***

**Carwyn Jones:** Yn gynharach eleni cyflwynodd y grŵp llywio ar feicio modur oddi ar ffyrdd ei adroddiad gwaith cyntaf a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion i wella’r sefyllfa mewn perthynas â defnyddio beiciau modur oddi ar ffyrdd. Yr wyf wedi cymeradwyo argymhellion yr adroddiad ac wedi cael cyfarfod cynhyrchiol yn ddiweddar â chynrychiolwyr y grŵp i drafod sut y maent yn bwriadu symud ymlaen â hyn.

Rhyddhawyd canllawiau newydd yn ddiweddar gan Lywodraeth y Cynulliad, mewn partneriaeth ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, i'r heddlu, awdurdodau lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol ar y mesurau gorfodi a rheoli a argymhellir. Yr wyf hefyd wedi ysgrifennu at yr awdurdodau perthnasol er mwyn tynnu eu sylw at y canllawiau a'u hannog i fabwysiadu'n ehangach yr enghreifftiau o arferion da y mae'n tynnu sylw atynt.

Mae'r awdurdodau heddlu yng Nghymru hefyd yn defnyddio eu pwerau dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 i fynd i'r afael â defnyddio beiciau modur/beiciau modur bach yn anghymdeithasol ac anghyfreithlon yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu rhoi rhybuddion i'r unigolion dan sylw yn ogystal â meddiannu'r beiciau a gwn fod hynny'n cael effaith ataliol ddefnyddiol mewn rhai ardaloedd.

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal ynghylch gorfodi'r ddeddfwriaeth sy'n gwahardd gyrru beiciau modur bach ar ffyrdd cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ47380)

**Edwina Hart:** Dim. Mae'r un ddeddfwriaeth yn berthnasol i feiciau modur bach ag sy'n berthnasol i feiciau modur. Mater i'r heddlu yw sicrhau, pan gânt eu gyrru ar y ffordd, bod beiciau modur bach yn bodloni'r holl ofynion sy'n cyd-fynd â hynny dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1998, megis cydymffurfio â rheoliadau adeiladwaith llym, cofrestru, treth ffordd, yswiriant a phrawf MOT a bod gan y beiciwr drwydded yrru briodol a'i fod yn gwisgo helmed beic modur addas.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hygyrchedd gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun? (WAQ47366)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cafodd gwefan newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei llunio i fodloni ac i ragori lle y mae hynny'n bosibl ar bwyntiau gwirio menter 'AA' ar hygyrchedd i'r we. Dyma'r safon o ran arferion gorau a orfodir gan ganllawiau Llywodraeth y DU ar gyfer pob gwefan yn y sector cyhoeddus. Bydd hygyrchedd yn un o'r ffactorau a ddilysir fel rhan o'r broses derfynu ar gyfer y wefan gan asiantaeth achredu annibynnol.